SIARAD AM OFAL YN Y DU

Nick Gadsby (The Answer), Silvia Galandini (Oxfam GB), Anam Parvez Butt (Oxfam GB)

Ysgrifennwyd yr **adroddiad ymchwil hwn** i rannu canlyniadau ymchwil, i gyfrannu at y ddadl gyhoeddus, ac i wahodd adborth ar ddatblygiad, a pholisi ac ymarfer dyngarol. Nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu sefyllfaoedd polisi y sefydliadau sy'n ei gyhoeddi ar y cyd. Mae'r farn a fynegir yn eiddo i'r awdur ac nid o reidrwydd i'r sefydliadau unigol.

OXFAM

Ledled y DU, mae nifer o bobl sy'n darparu gofal di-dâl – gan gynnwys rhieni a gwarcheidwaid plant, gweithwyr gofal cyflogedig, a gofalwyr di-dâl – yn profi tlodi, ynghyd â phwysau corfforol ac emosiynol enfawr. Mae hyn oherwydd bod y gofal y maent yn ei ddarparu yn cael ei gymryd yn ganiataol i raddau helaeth, ac am nad yw'n cael ei gefnogi'n briodol gan lywodraethau a chymdeithas yn ehangach. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu canfyddiadau allweddol o ymchwil a wnaed i lunio naratif newydd ar ofal, a'i brofi mewn perthynas â'i allu i gyfathrebu mewn modd mwy effeithiol â'r cyhoedd ynghylch yr angen brys i roi gwerth ar ofal o bob math – gan gyflwyno'r cefndir ar gyfer galwadau penodol i weithredu dros newid polisi.

CYNNWYS

Crynodeb gweithredol **4**

1 Cyflwyniad **7**

1.1 Yr angen i newid y naratif ynghylch gwaith gofal 8

1.2 Y prosiect 'Ail-lunio naratifau ynghylch gofal yn y DU' 8

2 Y dull a'r fethodoleg ymchwil **10**

2.1 Ymchwil llunio: beth, pam a sut? 10

2.2 Y broses ymchwil a'r cynllun dulliau cymysg 10

2.3 Y fethodoleg ar gyfer pob cam ymchwil allweddol 11

2.3.1 Adolygiad o'r llenyddiaeth a dadansoddiad semiotig 11

2.3.2 Grwpiau trafodaethau ansoddol 11

2.3.3 Profi meintiol 13

3 Canfyddiadau allweddol **15**

3.1 Adolygiad o'r llenyddiaeth a dadansoddiad semiotig 15

3.2 Drafftio'r cysyniadau cychwynnol ar gyfer y naratif 16

3.3 Grwpiau trafodaethau ansoddol 17

3.3.1 Y canfyddiad cyffredinol o ofal 17

3.3.2 Yr ymatebion i'r naratifau drafft 18

3.3.3 Cadarnhau'r naratif i'w brofi'n feintiol 21

3.4 Profi meintiol 23

3.4.1 Effaith y naratif ar y farn bod gofal yn fater polisi allweddol 23

3.4.2 Profi'r Cynsail 25

3.4.3 Profi'r Dystiolaeth 26

3.4.4 Profi'r Datganiadau Effaith 27

3.4.5 Profi'r naratif llawn 27

3.4.6 Y farn am bwy sy'n gyfrifol a'r hyn y gellir ei wneud i gefnogi gofalwyr yn well 29

4 Casgliadau **30**

Nodiadau **32**

Cydnabyddiaethau **36**

Adroddiadau ymchwil 37

CRYNODEB GWEITHREDOL

Ledled y DU, mae nifer o bobl sy'n darparu gofal am dâl a gofal di-dâl – gan gynnwys rhieni a gwarcheidwaid plant, gweithwyr gofal cymdeithasol a gofal plant, a gofalwyr di-dâl sy'n cefnogi pobl anabl, sâl ac oedrannus – yn profi tlodi a chaledi ariannol mawr, ac o dan bwysau corfforol ac emosiynol enfawr.

Mae hyn oherwydd bod y gofal y maent yn ei ddarparu yn cael ei gymryd yn ganiataol i raddau helaeth, ac am nad yw'n cael ei gefnogi'n briodol gan lywodraethau a chymdeithas yn ehangach. Mae llawer o'r naratifau cyhoeddus a sefydliadol presennol yn ystyried gofal yn weithgaredd ac iddo fawr ddim gwerth cymdeithasol nac economaidd, os o gwbl, yn rhywbeth sy'n digwydd yn breifat yn ein cartrefi, ac yn waith nad oes angen llawer o sgiliau i'w wneud.

I newid hyn, mae angen i ni adrodd stori newydd am ofal yn y DU – un sy'n rhoi gwerth ar *bob* gwaith gofal, a hynny am ei fod yn rhan hanfodol o'n cymdeithas a'n heconomi, yn rhywbeth sydd o fudd i bawb, ac yn rhywbeth y mae'n rhaid i lywodraethau ei gefnogi a buddsoddi digon o arian ynddo.

Yn rhan o'r prosiect *Ail-lunio naratifau ynghylch gofal yn y DU* (Mehefin 2022-Mawrth 2023), gwnaed gwaith ymchwil i ddatblygu naratif newydd ar ofal, a'i brofi yn ôl ei allu i gyfathrebu mewn modd mwy effeithiol â'r cyhoedd yn y DU ynghylch pwysigrwydd hanfodol gofal a'r angen brys i roi gwerth priodol arno – gan baratoi ar gyfer galwadau penodol i weithredu dros newid polisi. Cafodd y naratif ei brofi yn Saesneg yn unig.

Gwnaethpwyd y gwaith ymchwil gan Oxfam a The Answer. Roedd y prosiect yn cynnwys Grŵp Llywio Ymgynghorol a oedd yn cynnwys Carers Trust, Carers UK, Joseph Rowntree Foundation,the Trades Union Congress, Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod (WEN) Cymru, a'r the Women's Budget Group.

Crynhoir y negeseuon allweddol a'r argymhellion o'r prosiect yn y pecyn cymorth hwn.

Roedd y prosiect hwn yn defnyddio **diffiniad eang o ofal am dâl a gofal di-dâl**, gyda gofal di-dâl yn cynnwys y gofal plant a ddarperir gan rieni a gwarcheidwaid, y gofal a'r cymorth a ddarperir i bobl anabl, sâl neu oedrannus, yn ogystal â gwaith yn y cartref megis coginio a glanhau; ac roedd gofal am dâl yn cwmpasu gofalu am bobl neu wneud gwaith domestig am dâl – fel y mae gweithwyr gofal cymdeithasol a gofal plant yn ei wneud, er enghraifft.[1]

Mae'r naratif newydd a ddatblygwyd yn sgil y prosiect wedi'i strwythuro mewn tair rhan:

- **Cynsail** sylfaenol, sy'n amlinellu gofal fel gweithgarwch cyfunol sy'n dal cymdeithas at ei gilydd.
- Datganiad **Tystiolaeth**, sy'n amlygu ffeithiau allweddol am hyd a lled a natur pob gofal ledled y DU – a hynny o ran niferoedd a gweithgareddau, fel ei gilydd. Mae'n bwysig nodi mai nod y datganiad Tystiolaeth yw darparu fframwaith hyblyg y gellir ei addasu ar gyfer data a dadansoddiadau newydd sy'n dod ar gael.
- Tri **Datganiad Effaith** gwahanol sy'n disgrifio canlyniadau negyddol peidio â darparu mwy o gymorth i ofalwyr a buddsoddi mwy ynddynt, a hynny o dri safbwynt gwahanol:
    - **Darpariaeth** ar gyfer gofalwyr, sy'n canolbwyntio ar yr effeithiau ar y seilwaith iechyd a gofal cyffredinol, ynghyd ag ar lesiant cymdeithas yn ehangach;
    - Canlyniadau **economaidd** diffyg cymorth a buddsoddiad i ofalwyr;
    - **Derbynwyr gofal**, sy'n canolbwyntio ar y rheiny y mae arnynt angen gofal o ganlyniad i salwch, anabledd a henaint.

Cynsail

Bob dydd ledled y DU, mae gwaith gofalwyr am dâl a gofalwyr di-dâl yn helpu i ddal cymdeithas at ei gilydd – y rhwydwaith anweledig o gymorth, empathi a gofal ar gyfer y bobl y mae arnynt ei angen fwyaf, ac sy'n cefnogi ein seiliau cymdeithasol ac economaidd.

Tystiolaeth

Yn y DU, mae dros 10 miliwn[2] o bobl yn darparu gofal di-dâl a gofal am dâl – mae hynny'n fwy nag 1 o bob 5 o bobl. Maent yn helpu ein plant i dyfu a dysgu, yn cefnogi annibyniaeth pobl anabl, yn sicrhau bod ein perthnasau oedrannus yn byw bywydau boddhaus, ac yn cadw ein cartrefi i fynd.

Datganiad Effaith 1 (Darpariaeth): Y modd y bydd darpariaeth well i ofalwyr yn lleihau dioddefaint ac yn achub bywydau

Heb ragor o fuddsoddiad mewn gofalwyr a chymorth iddynt, bydd yna ganlyniadau difrifol i gymdeithas:

Bydd y GIG yn cael mwy o anhawster ymdopi nag y mae ar hyn o bryd hyd yn oed, gan olygu y bydd mwy o bobl yn dioddef a mwy o bobl yn marw'n ddiangen – mae gofal cymdeithasol a ariennir yn briodol yn allweddol i fynd i'r afael â'r broblem hon sy'n gwaethygu.

Ond mae llawer o ofalwyr dan bwysau yn barod, yn cael eu tanbrisio ac yn cael trafferthion ariannol, felly heb ragor o fuddsoddiad mewn gofalwyr am dâl a gofalwyr di-dâl, fel ei gilydd, mae dyfodol a llesiant ein hanwyliaid mewn perygl.

Datganiad Effaith 2 (Economaidd): Y modd y gall diffyg cymorth i ofalwyr eu gyrru i dlodi

Heb ragor o fuddsoddiad mewn gofalwyr a chymorth iddynt, bydd yna ganlyniadau economaidd difrifol i ofalwyr:

Ar gyfartaledd, mae 600 o bobl y dydd yn gorfod gadael cyflogaeth er mwyn gofalu'n ddi-dâl am berthnasau hŷn ac anabl, a hynny oherwydd diffyg cymorth yn y gweithle.[3]

Heb allu cyrchu gofal plant yn gyffredinol, ni all llawer o rieni sydd am ddychwelyd i'r gwaith wneud hynny, neu mae'n rhaid iddynt gymryd swyddi cyflog isel er mwyn gallu gofalu am eu plant.

Gall hyn gael effaith ddifrifol ar incwm gofalwyr, ac mae llawer ohonynt yn cael eu tynnu i dlodi.

Datganiad Effaith 3 (Derbynwyr gofal): Y modd y bydd diffyg cymorth i ofalwyr yn cael effaith negyddol ar y rhai sy'n derbyn gofal

Heb ragor o fuddsoddiad mewn gofalwyr a chymorth iddynt, bydd yna ganlyniadau difrifol i'r rheiny y mae arnynt angen gofal fwyaf mewn cymdeithas:

Bydd ein profiad o henaint yn llawer llai cadarnhaol – colli cyswllt â phobl a cholli'r anogaeth gorfforol ac emosiynol y mae ei hangen i fyw bywyd boddhaus.

Bydd yn fwy anodd i bobl anabl fyw bywydau annibynnol sy'n rhoi ymdeimlad o foddhad iddynt, a bydd pobl sydd â salwch difrifol yn ei chael yn anodd byw â'r urddas y maent yn ei haeddu.

Canfu'r ymchwil fod y naratif newydd yn gallu helpu i sicrhau bod gofal yn fater polisi pwysig i'r cyhoedd.

Yn yr arolwg arbrofol a ddefnyddiwyd i brofi'r naratif newydd (yn Saesneg), roedd '*Gofal ar gyfer ein plant, ein pobl anabl a'n henoed*' ymhlith y tri phrif fater polisi yn achos 38% o'r ymatebwyr a oedd wedi gweld y naratif, o gymharu ag 16% yn achos y rheiny nad oeddent wedi ei weld, sy'n golygu mai hwn yw'r trydydd mater pwysicaf i fynd i'r afael ag ef, ar ôl yr economi ac iechyd. Roedd pob un o'r tri Datganiad Effaith wedi gweithio llawn cystal â'i gilydd o ran newid barn ar amlygrwydd polisi gofal.

Mae'r gwaith ymchwil hwn hefyd yn awgrymu, er mwyn meithrin ymwybyddiaeth y cyhoedd o ofal fel daioni cymdeithasol, ac annog ei fod yn cael ei flaenoriaethu mwy fel mater polisi hanfodol, ei bod yn bwysig i negeseuon wneud y canlynol:

1. **Cyflwyno gofal fel daioni cymdeithasol sy'n rhoi budd i gymdeithas yn gyffredinol, ac yn sicrhau bod cymdeithas yn gweithredu o ddydd i ddydd.** Byddai hyn yn helpu o ran symud oddi wrth y tueddiad i ystyried gofal yn rhywbeth sy'n digwydd yn bennaf i unigolion, ac yn eu cefnogi, yn hytrach nag yn rhywbeth sy'n darparu buddion cyfannol ehangach.
2. **Siarad am ofal yn ei rôl o fod yn 'rhwydwaith anweledig o gymorth, empathi a gofal' sy'n cynnal seiliau cymdeithasol ac economaidd y genedl.** Mae hyn yn helpu i gyfleu'r manteision cymdeithasol y mae gofal yn eu dwyn i'r DU, yn ogystal â'r cysyniad o 'seilwaith', a hynny mewn modd cryno a hygyrch sydd hefyd yn rymus.
3. **Amlygu'r nifer sylweddol o bobl sy'n cyflawni amrywiaeth eang o weithgareddau gofalu yn y DU.** Mae'r ystadegyn a ddefnyddir yma ('mwy na 10 miliwn') yn fan cychwyn i'w ddefnyddio'n dystiolaeth bod gofal o bob math yn ddaioni cymdeithasol hanfodol, ac yn weithgarwch ar y cyd cyson sy'n cyffwrdd â bywydau nifer o bobl. Mae angen dadansoddiad pellach er mwyn datblygu mesur manwl gywir o faint o bobl sy'n darparu gofal am dâl a gofal di-dâl ledled y DU, gan ddefnyddio diffiniad eang y prosiect hwn. Dylai unrhyw ystadegau a ddefnyddir gael eu mynegi ar ffurf sy'n hawdd ei deall, megis cymarebau ('mwy nag un o bob pump o bobl') neu ganrannau.
4. **Atgoffa pobl o'r amrywiaeth eang o weithgareddau y mae gofalu yn eu cwmpasu.** Gall hyn hybu gwell dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o'r rôl hanfodol y mae gofalwyr yn ei chwarae mewn cymdeithas, gan hefyd helpu pobl i gydnabod eu profiadau personol eu hunain o ofal. Mae'r persbectif ehangach hwn hefyd yn helpu i esbonio nifer y gofalwyr, ac yn cefnogi'r syniad bod gofal yn ddaioni cymdeithasol cyffredinol.
5. **Fframio gofal yn nhermau'r manteision emosiynol (ac nid corfforol yn unig) y mae'n eu darparu i'r rhai sy'n derbyn gofal.** Mae hyn yn helpu i wrthbwyso'r portread negyddol a phesimistaidd mynych o ofal, yn enwedig yn y cyfryngau. Trwy bwysleisio effeithiau cadarnhaol 'cysylltiad dynol', 'annibyniaeth' ac 'urddas', mae'n bosibl tynnu sylw at natur drawsffurfiol gofal a helpu i hybu safbwynt mwy cytbwys ynghylch rôl gofalwyr mewn cymdeithas.
6. **Defnyddio iaith sy'n annog pobl i weld bod negeseuon yn uniongyrchol berthnasol iddyn nhw.** Pan all pobl eu gweld eu hunain mewn neges, maent yn fwy tebygol o ymateb iddi. Gellir cyflawni hyn trwy ddefnyddio'r rhagenw meddiannol 'ein' wrth siarad am y rhai sy'n derbyn gofal (e.e. *ein* plant, *ein* perthnasau oedrannus, *ein* hanwyliaid), profiadau (e.e. *ein* profiad o henaint), a chymunedau (e.e. *ein* gwlad).
7. **Amlygu'r canlyniadau negyddol i gymdeithas os na fydd gofalwyr a'r rhai sy'n derbyn gofal yn cael gwell cymorth.** Mae hon yn ffordd bwerus o greu ymdeimlad o amlygrwydd a brys o ran mynd i'r afael â'r arfer o danbrisio gofal.

1 CYFLWYNIAD

Mae gofal, boed hynny am dâl neu'n ddi-dâl, yn chwarae rhan hanfodol yn ein cymdeithas a'n heconomi: mae'n cefnogi pobl a chymunedau i dyfu, datblygu a ffynnu. Mae pob un ohonom yn profi gofal ar ryw adeg yn ein bywydau – yn blant ac wedi i ni dyfu'n hŷn; wrth ddod yn rhieni neu'n neiniau a theidiau; ac wrth ofalu am aelodau o'r teulu neu ffrindiau y mae arnynt angen ein cymorth oherwydd salwch, henaint neu anabledd.[4]

Safbwynt ehangach o ran gofal

Gall gofalwyr gael eu talu neu fod yn ddi-dâl. Mae gwaith gofal di-dâl yn cynnwys gofal plant a ddarperir gan rieni neu warcheidwaid, gofalu am blant neu oedolion a chanddynt anghenion cymorth ychwanegol o ganlyniad i anabledd, salwch neu henaint, yn ogystal â gwaith yn y cartref megis coginio a glanhau. Mae gwaith gofal am dâl yn cwmpasu gofalu am bobl neu wneud gwaith domestig am dâl – fel y mae gweithwyr gofal cymdeithasol a gofal plant yn ei wneud, er enghraifft.[5]

Fodd bynnag, ledled y DU ac yn fyd-eang, mae gwaith gofal am dâl a di-dâl yn parhau i gael ei danbrisio a'i gymryd yn ganiataol, ac nid yw'n cael ei gydnabod nac yn cael digon o gymorth na buddsoddiad gan lywodraethau.[6] Mae hyn yn golygu cost uchel i lesiant ariannol, corfforol, emosiynol a meddyliol y gofalwyr eu hunain.[7]

Mae nifer o'r rheiny sy'n darparu gofal di-dâl yn gorfod gadael gwaith am dâl, lleihau eu horiau gweithio, neu gymryd cyflogaeth fwy ansicr, am dâl is, wrth iddynt frwydro i jyglo cyfrifoldebau gofalu â chyflogaeth am dâl.[8] Mae'n rhaid i eraill ddibynnu ar fudd-daliadau nawdd cymdeithasol nad ydynt yn darparu digon o incwm i dalu am yr hanfodion.[9] Ar yr un pryd, mae'n rhaid i ofalwyr wynebu costau uwch yn aml, sy'n gysylltiedig â'r gofal y maent yn ei ddarparu, e.e. ar gyfer gofal plant[10] neu gyfarpar meddygol,[11] a hwythau heb fod yn cael cymorth digonol yn y gweithle na chan wasanaethau gofal sydd dan fwy a mwy o straen ac yn cael eu tanariannu (gan gynnwys gofal cymdeithasol a gofal plant). Mae'r pandemig a'r argyfwng costau byw cyfredol wedi gwaethygu hyn oll.

- Mae'r rheiny sy'n darparu gofal di-dâl i aelodau o'r teulu a ffrindiau anabl, sâl a hŷn yn fwy tebygol o brofi tlodi (29%) na'r rheiny heb gyfrifoldebau gofalu (20%).[12] Hyd yn oed cyn y pandemig, roedd 39% o'r gofalwyr di-dâl yn dweud eu bod yn ei chael yn anodd cael deupen llinyn ynghyd.[13] Yng nghanol yr argyfwng costau byw, dywedodd chwarter y gofalwyr eu bod yn torri i lawr ar nwyddau hanfodol megis bwyd neu wres.[14] Yn 2022, roedd 91% o'r gofalwyr di-dâl yn teimlo fel pe baent yn cael eu hanwybyddu gan y llywodraeth, a dywedodd 70% nad oeddent yn cael digon o gymorth.[15]
- Mae'r gyfradd tlodi yn achos rhieni o oedran gweithio (23%) yn uwch nag yn achos y rhai nad ydynt yn rhieni (18%)[16] – teuluoedd unig rieni yw'r math o deulu mwyaf tebygol, o bell ffordd, o fod yn brwydro yn erbyn tlodi.[17] Mewn arolwg diweddar o rieni a gofalwyr plant, dywedodd 60% o'r ymatebwyr bod cael deupen llinyn ynghyd wrth fagu teulu wedi dod yn fwy anodd 'yn ystod y tair blynedd ddiwethaf';[18] roedd ymchwil a gyhoeddwyd yn 2023 hefyd yn dangos bod un o bob pum unig riant yn dweud ei fod wedi defnyddio credyd i dalu am hanfodion y cartref, a bod cyfran debyg yn dweud eu bod wedi dechrau defnyddio banciau bwyd.[19]

Mae gwaith gofal am dâl, ym maes gofal cymdeithasol a gofal plant, fel ei gilydd, hefyd yn parhau i fod heb dâl digonol ac yn cael ei nodweddu gan gontractau ansicr, cydnabyddiaeth wael o sgiliau, a diffyg hyfforddiant a chyfleoedd i gamu ymlaen yn eich gyrfa.

- Yn y DU ym mis Ebrill 2021, roedd swyddi megis gwarchod plant a gwaith gofal yn cyfrif am y nifer mwyaf o swyddi cyflogeion a oedd yn cael tâl islaw'r cyflog byw gwirioneddol.[20] Yn Lloegr, mae tâl un o bob wyth o'r gweithlu blynyddoedd cynnar yn llai na £5 yr awr,[21] ac mae 54% o'r

gweithwyr gofal cymdeithasol yn cael tâl sy'n is na'r cyflog byw gwirioneddol.[22] Mae dros chwarter gweithwyr gofal preswyl y DU yn byw mewn tlodi neu bron mewn tlodi.[23]

- Canfu ymchwil i'r sector addysg gynnar a gofal plant yn ystod pandemig COVID-19 fod y gweithwyr yn digalonni ac yn teimlo fel petaent yn cael eu hanwybyddu, ac roedd bron 56% o'r lleoliadau gofal plant a arolygwyd yn ei chael yn anodd recriwtio staff.[24] Yn yr un modd, nododd 75% o'r gweithwyr gofal iechyd fod gweithio yn ystod y pandemig wedi peri i'w hiechyd meddwl waethygu ac achosi cynnydd sydyn mewn gorbryder.[25]

Nid yw gwaith gofal wedi'i ddosrannu'n gyfartal yn ein cymunedau – menywod, ac yn enwedig menywod hil-ddiffiniedig, sy'n gwneud y mwyafrif helaeth o'r gwaith gofal am dâl a di-dâl. Mae hyn yn golygu eu bod yn fwy agored i'r effaith negyddol y mae diffyg gwerthfawrogiad o ofal yn ei chael ar y rheiny sy'n darparu gofal:[26]

- Mae menywod yn y DU yn darparu gwerth £328 biliwn o ofal plant di-dâl a £50 biliwn o ofal oedolion di-dâl y flwyddyn; mae bron hanner y menywod o oedran gweithio yn darparu, ar gyfartaledd, 45 awr o ofal di-dâl bob wythnos, tra bo 25% o'r dynion yn darparu 17 awr.[27]
- Mae menywod o gefndiroedd du ac ethnig leiafrifol (BME) yn fwy tebygol o fyw ar aelwydydd unig riant ac mewn teuluoedd mwy.[28]
- Mae menywod hefyd yn cynrychioli mwyafrif y gweithwyr gofal am dâl: ledled Cymru, Lloegr a'r Alban, mae tua phedwar o bob pum gweithiwr gofal cymdeithasol,[29] ynghyd â thua 95% o'r gweithwyr ym maes addysg a gofal plant yn y blynyddoedd cynnar, yn fenywod.[30]

1.1 YR ANGEN I NEWID Y NARATIF YNGHYLCH GWAITH GOFAL

Ymhlith y ffactorau sy'n llywio diffyg gwerthfawrogiad o waith gofal am dâl a di-dâl, ledled y DU ac yn fyd-eang, y mae'r **naratifau a'r canfyddiadau amlycaf ynghylch 'gwaith'. Mae'r naratifau hyn yn cau allan weithgareddau sy'n ddi-dâl neu sy'n digwydd mewn cartrefi preifat, ond hefyd yn ystyried gwaith gofal am dâl yn waith nad oes angen llawer o sgiliau i'w wneud, a phob gwaith gofal yn weithgarwch nad oes iddo fawr ddim gwerth cymdeithasol nac economaidd, os o gwbl**.[31]

Mae yna angen dybryd i newid y naratifau cyffredinol hyn ac adrodd stori newydd am ofal – un sy'n rhoi gwerth ar *bob* gwaith gofal fel rhan hanfodol o'n cymdeithas a'n heconomi, am ei fod o fudd i bawb ac yn gyfrifoldeb i bawb, ac yn elfen y mae'n rhaid i lywodraethau ei chefnogi a buddsoddi digon o arian ynddi.[32] Byddai'r stori newydd hon am ofal yn helpu i feithrin cefnogaeth y cyhoedd i newid brys i bolisi sy'n ffocysu ar gydnabod, cefnogi, ailddosbarthu a gwobrwyo gwaith gofal.[33]

Yn y pen draw, mae ail-lunio gofal i fod yn rhywbeth sydd o fudd cymdeithasol ac yn rhan o'r economi yn hanfodol i lunio polisïau gofal trawsnewidiol a chyflawni economi sy'n rhoi mwy o werth ar lesiant a chydraddoldeb na thwf a chloddio.[34]

1.2 Y PROSIECT 'AIL-LUNIO NARATIFAU YNGHYLCH GOFAL YN Y DU'

Rhwng misoedd Mehefin 2022 a Mawrth 2023, aeth Oxfam a The Answer ati i roi'r prosiect *Ail-lunio naratifau ynghylch gofal yn y DU* ar waith, prosiect a oedd hefyd yn cynnwys Grŵp Llywio Ymgynghorol a chanddo aelodau o Carers Trust, Carers UK, Joseph Rowntree Foundation, the Trades Union Congress, Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod (WEN) Cymru, a'r the Women's Budget Group.

Roedd y prosiect ymchwil llunio hwn yn rhan o astudiaeth amlwladol ledled y DU, Kenya a Zimbabwe, dan arweiniad Oxfam, a oedd yn ceisio deall barn cynulleidfaoedd gwahanol am ofal di-dâl, gwaith

anffurfiol a'r economi yn ehangach. Nod yr astudiaeth oedd nodi pa naratifau ynghylch y materion hyn sydd fwyaf cymhellol i newid y farn hon, a pham, a'r modd o sicrhau eu bod yn gweithio yn achos cynulleidfaoedd gwahanol.

Roedd y prosiect yn y DU yn canolbwyntio'n benodol ar ofal am dâl a gofal di-dâl. Roedd ei nod fel a ganlyn:

a. Deall y modd y mae'r cyhoedd ledled y DU yn meddwl am ofal am dâl a gofal di-dâl.
b. Llunio naratifau newydd ynghylch gwaith gofal, yn seiliedig ar y diffiniad ehangach hwn, a'u profi yn ôl eu potensial i symud ffordd o feddwl y cyhoedd tuag at ystyried gofal yn rhywbeth allweddol sy'n rhoi budd cymdeithasol, yn gyfrifoldeb cyfunol, ac yn fater polisi brys.

Roedd Damcaniaeth Newid y prosiect wedi'i gwreiddio mewn dwy dybiaeth allweddol:

- Trwy newid y ffordd o lunio mater megis gofal, gellir cyflawni newid yn ffordd cynulleidfa o feddwl, a gall hyn, yn ei dro, ddylanwadu ar ddiwylliant ehangach, ymddygiad unigolion, a chanlyniadau penodol (megis polisïau a buddsoddiad cyhoeddus).[35]
- Gall pwysau cyhoeddus fod yn llwybr pwysig i ddylanwadu ar y rhai sy'n gwneud penderfyniadau, ac mae hefyd yn creu'r amgylchedd iawn i bobl groesawu unrhyw bolisïau trawsnewidiol.[36]

Mae **naratifau** yn straeon syml a rennir ar draws diwylliant ac sy'n 'esbonio' sefyllfa'r byd. Maent yn siapio canfyddiad pobl o realiti a'r hyn sy'n bosibl. Mae naratifau newydd yn helpu pobl i weld bod yna ddewisiadau amgen.

Mae **ail-lunio** yn ffordd o ddangos mater mewn golau newydd trwy adrodd y stori mewn ffordd wahanol, e.e. canolbwyntio ar y manteision cadarnhaol o gymharu â'r canlyniadau negyddol, neu ddangos y modd y mae grŵp ymylol yn meddu ar allwedd.

Roedd y prosiect yn cynnwys Grŵp Llywio Ymgynghorol, ac roedd ei aelodau wedi rhannu mewnwelediad ac arbenigedd ar fathau gwahanol o ofal (e.e. gofal plant, gofal di-dâl am bobl anabl, sâl neu oedrannus, gwaith gofal am dâl), yn ogystal â'r cysylltiad rhwng rhoi gwerth ar ofal a chyfiawnder cymdeithasol, economaidd a rhwng y rhywiau. Nod cydweithio â sefydliadau eraill ar y prosiect hwn oedd ymgorffori arbenigedd presennol ar ofal i'r ymchwil llunio, yn ogystal â dechrau meithrin cefnogaeth ehangach ar gyfer sicrhau cydweddiad â'r naratif newydd.

Cydnabyddir mai cam cyntaf yn unig tuag at ail-lunio sgyrsiau am ofal yw'r gwaith ymchwil hwn, ac y bydd angen mwy o gydweithredu i sicrhau symudiad cyhoeddus cynyddol o ran rhoi gwerth ar bob ffurf ar ofal – a hynny gan gydnabod hefyd natur eithriadol o gynnil ac amrywiol gwaith gofal ledled y DU.

2 Y DULL A'R FETHODOLEG YMCHWIL

2.1 YMCHWIL LLUNIO: BETH, PAM A SUT?

Roedd *Ail-lunio naratifau ynghylch gofal yn y DU* yn **brosiect ymchwil llunio**. Ei nod oedd ail-lunio'r modd y mae'r cyhoedd yn y DU yn meddwl am ofal am dâl a gofal di-dâl, fel ei gilydd, (fel y'u diffinnir yn y Introduction uchod), a hynny trwy lunio naratifau newydd a phrofi eu gallu i newid y ddadl ynghylch gofal.

Mae naratifau'n sylfaenol i'r modd y mae pobl yn gwneud synnwyr o'r byd. Mae yna nifer o naratifau yn bresennol mewn cymdeithas ar unrhyw adeg, ond mae rhai yn fwy amlwg na'i gilydd. Wrth ddatblygu naratifau newydd, mae'n bwysig cofio bod newid y naratif yn gwneud y canlynol:

- Creu straeon cymhellol newydd (ail-lunio) sy'n 'gwneud synnwyr' yn reddfol ac sy'n newid y ffordd y mae pobl yn ystyried mater – gwneir hyn trwy dynnu ar gredoau sy'n bodoli eisoes a'u cyflwyno mewn goleuni newydd.
- Newid pŵer y naratif – h.y. mae'n newid pwy sy'n cael adrodd y stori ac, ar lefel ddyfnach, pwy sy'n cael hawlio awdurdod, diffinio materion, a rhoi ystyr i'r materion hynny.
- Nid yw'n ymwneud â chwalu mythau ynghylch naratifau sy'n bodoli eisoes: mae gwrthbrofi naratif yn aml yn ei gryfhau am nad oes yna ddewisiadau amgen credadwy, a gall ailadrodd stori, hyd yn oed i'w barnu, barhau i lunio dadleuon yn nhermau naratif amlycaf.
- Nid yw'n ymwneud yn unig â rhoi cyhoeddusrwydd i'r ffigurau cywir: gellir defnyddio ystadegau i gefnogi naratif (y 'rheswm i gredu' rhesymegol), ond nid ydynt yn creu naratifau newydd ar eu pen eu hunain. Mae angen i naratifau feithrin empathi – trwy helpu pobl i weld y byd trwy lygaid rhywun arall – a chreu profiadau newydd a rennir y gellir uniaethu'n emosiynol â nhw.
- Cyfleu syniad clir sy'n ymgorffori diddordebau carfanau eang o bobl a grwpiau, a hynny am fod pobl yn fwy tebygol o gael eu cymell i weithredu yn rhan o weledigaeth ar y cyd.

2.2 Y BROSES YMCHWIL A'R CYNLLUN DULLIAU CYMYSG

Roedd yr ymchwil, a gynhaliwyd yn Saesneg yn unig, yn defnyddio trefn dulliau cymysg, ailadroddol, ac yn cynnwys pum cam allweddol (Ffigur 1):

1. Cyflawnwyd **cam cyntaf o ddadansoddi semiotig** i sicrhau dirnadaeth o'r ffactorau diwylliannol sydd eisoes yn llunio canfyddiadau'r cyhoedd o ofal, ynghyd ag **adolygiad o'r llenyddiaeth** i dynnu sylw at naratifau sy'n bodoli eisoes ynghylch gofal.
2. Lluniwyd **cysyniadau cychwynnol y naratif** o'r ddirnadaeth a ddeilliodd o Gam 1, yn ogystal ag o adborth gan y Grŵp Llywio Ymgynghorol.
3. Datblygwyd y cysyniadau naratif hyn ymhellach yn bedwar **naratif drafft a archwiliwyd trwy gyfrwng grwpiau trafodaethau ansoddol.**
4. Cafodd y naratifau drafft eu mireinio i ffurfio'r **naratif newydd terfynol**.
5. Rhoddwyd prawf (yn Saesneg) ar effeithiolrwydd y naratif newydd o ran newid safbwynt y cyhoedd ar ofal, a hynny trwy **arolwg arbrofol**.



Ffigur 1: Camau'r prosiect, yn cynnwys y camau ymchwil allweddol

2.3 Y FETHODOLEG AR GYFER POB CAM YMCHWIL ALLWEDDOL

2.3.1 Adolygiad o'r llenyddiaeth a dadansoddiad semiotig

Dechreuodd y broses ymchwil gydag adolygiad o rywfaint o'r **llenyddiaeth** a gynhyrchir gan sefydliadau sy'n weithredol yn y sector. Roedd hyn yn cwmpasu dros 60 o ffynonellau, gan gynnwys papurau ymchwil, adroddiadau'r sector, astudiaethau academaidd, a blogiau. Nod yr adolygiad o'r llenyddiaeth oedd nodi'r canlynol:

- Materion allweddol sy'n gysylltiedig â gofal a phryderon ymgyrchu rhanddeiliaid.
- Y mathau o naratifau ynghylch gofal a oedd eisoes yn cael eu defnyddio yn y sector.

Ychwanegwyd at yr adolygiad o'r llenyddiaeth gan ddarn o **ddadansoddiad semiotig** a oedd â ffocws diwylliannol ehangach. Roedd hwn yn cynnwys: straeon newydd ynghylch gofal o ystod o ffynonellau a oedd yn cynrychioli amrywiaeth cynulleidfaoedd y DU, gan gynnwys y BBC, ITV, Channel 4, Sky, *The Times*, *The Guardian, The Daily Mail*, *The Sun*, *The Independent*, *The Daily Telegraph* a'r *Daily Express;* y cyfryngau adloniant, yn cynnwys rhaglenni dogfen a fformatau ffuglennol; a ffynonellau hanesyddol a chymdeithasol sy'n berthnasol i ofal.

> Mae **semiotig** yn ddull ymchwil a ddefnyddir i ddeall – 'dadgodio' – y modd y mae gwybodaeth ddiwylliannol y mae pobl yn dod ar ei thraws o ddydd i ddydd (boed hynny trwy deulu neu ffrindiau, sefydliadau megis ysgolion, prifysgolion a gweithleoedd, neu drwy'r cyfryngau) yn dylanwadu ar ganfyddiadau, credoau a gwerthoedd ar lefel gynulliadol, ac yn eu siapio.[37]

2.3.2 Grwpiau trafodaethau ansoddol

Roedd nodau'r grwpiau trafodaethau ansoddol (a gynhaliwyd yn Saesneg) fel a ganlyn:

- Archwilio canfyddiadau ynghylch gofal a'r rhwystrau i roi mwy o werth arno, yn cynnwys y cysyniad o ofal (yn seiliedig ar y diffiniad eang a fabwysiadwyd gan y prosiect), ei rôl mewn cymdeithas, a'r amrywiaeth o rolau gofalu penodol, gyda ffocws ar ofal cymdeithasol am dâl a gwaith gofal plant, gofal di-dâl ar gyfer y rheiny sydd ag anghenion cymorth ychwanegol, a gofalu am blant.

- Archwilio'r naratifau drafft er mwyn deall eu potensial i newid canfyddiadau ynghylch gofal ac i feithrin cefnogaeth ar gyfer polisïau cysylltiedig â gwell cymorth ar gyfer pob gwaith gofal.
- Nodi pa naratifau drafft i'w datblygu ymhellach i'w profi yn y cam meintiol.

Cynhaliwyd chwe thrafodaeth grŵp dwyawr o hyd, gyda phum ymatebydd ym mhob un, a hynny ar-lein ym mis Hydref 2022.

Cafodd y cyfranogwyr eu dewis ar-lein a'u rhoi mewn grwpiau trwy ddilyn y strwythur a amlinellir yn Ffigur 2, h.y. roedd y sampl yn cynnwys ystod o oedrannau (25-50+); rhaniad cyfartal o ran y rhywiau; cynrychiolaeth o blith cyfranogwyr o'r dosbarth canol (B) a'r dosbarth canol is (C1), y dosbarth gweithiol medrus (C2), a'r dosbarth gweithiol (D); rhaniad rhwng dewisiadau gwleidyddol mwy i'r chwith a mwy i'r dde; cynrychiolaeth o blith lleiafrifoedd ethnig; cynrychiolaeth o blith y rheiny â chyflyrau iechyd a allai fod yn derbyn gofal; a'r rheiny ag amrywiaeth o brofiadau gofalu. Er bod pum grŵp yn cynnwys cyfranogwyr a recriwtiwyd o bob cwr o'r DU, roedd un grŵp yn cynnwys cyfranogwyr o Gymru yn unig.



Ffigur 2: Y grwpiau trafodaethau ansoddol, y dull a'r sampl

Cyflawnodd yr ymatebwyr ddwy dasg ymlaen llaw cyn mynd i'r grwpiau trafod, gan gynnwys myfyrio ar (1) newidiadau sydd wedi digwydd ym mywydau personol pobl ers y pandemig; a (2) ystyr 'gofalu'.

Ym mhob sesiwn, rhannwyd y drafodaeth yn ddwy ran:

1. Trafodaeth benagored am yr hyn yr oedd gofal yn ei olygu i'r cyfranogwyr a'r cynildeb o ran eu canfyddiad o ofal, yn cynnwys cwestiynau ynghylch pa fath o ofalwyr y rhoddir mwy/llai o werth arnynt a faint o werth y mae eraill yn ei roi ar ofal.
2. Yna, dangoswyd y pedwar naratif drafft i'r cyfranogwyr (cafodd y rhain eu cyflwyno mewn trefn wahanol ym mhob sesiwn er mwyn sicrhau nad oedd 'tuedd y drefn' yn amharu ar ymatebion pobl). Gofynnwyd iddynt sgorio'r naratifau drafft yn unigol cyn rhannu eu barn fel y gellid mesur effaith gychwynnol pob naratif drafft mewn modd cymharol ddiduedd.

Mae'r holiadur cyfan a ddefnyddiwyd i recriwtio cyfranogwyr ar gyfer y grwpiau, ynghyd â'r cyfarwyddiadau cyn y dasg, a'r canllaw i'r pynciau a ddefnyddiwyd yn ystod y grwpiau, ar gael ar ffurf atodiad technegol yma.

2.3.3 Profi meintiol

Nod yr arolwg meintiol (a gynhaliwyd yn Saesneg) oedd deall y canlynol:

- Y graddau y mae'r naratif newydd (a luniwyd yn dilyn y grwpiau trafodaethau ansoddol) yn gwneud i bobl flaenoriaethu gofal o gymharu â materion polisi eraill, ac yn newid cred pobl a'u hagweddau at ofal yn y DU.
- Y tebygrwydd y bydd y naratif newydd yn cymell rhyw fath o weithredu mewn perthynas â gwneud gofal yn flaenoriaeth o ran polisi.

Cynhaliwyd yr arolwg ar-lein rhwng misoedd Rhagfyr 2022 ac Ionawr 2023, ac fe'i dosbarthwyd i sampl gynrychioliadol o 3,000 o ymatebwyr ledled y DU. Cafodd samplau atgyfnerthu ar gyfer Cymru a'r Alban eu hychwanegu i sicrhau y gallai'r dadansoddiad ddigwydd ar lefel genedlaethol.

Roedd yr arolwg yn defnyddio dull arbrofol. Roedd rhai ymatebwyr wedi gweld y naratif (Triniaeth) ac nid oedd eraill wedi ei weld (Rheolydd). Yna, rhannwyd y grŵp Triniaeth yn dri is-grŵp, gyda phob un yn gweld yr un Cynsail a Thystiolaeth, ond Datganiad Effaith gwahanol (naill ai Darpariaeth, Economaidd neu Dderbynwyr gofal) – fel y nodir yn Ffigur 3.



Ffigur 3: Profi meintiol, y grŵp a'r is-grwpiau Triniaeth

Yn gyffredinol, defnyddiwyd dau ddull i fesur perfformiad y naratif:

1. Y dull grŵp Rheolydd yn erbyn y grŵp Triniaeth: ni welodd y grŵp Rheolydd y naratif newydd, ac felly roedd yn darparu mesur gwaelodol ar gyfer y canfyddiad o bwysigrwydd gofal fel blaenoriaeth i wleidyddion. Roedd y grŵp Triniaeth wedi gweld y naratif, felly roedd yn bosibl gwneud cymhariaeth uniongyrchol rhwng eu canfyddiad hwy o bwysigrwydd gofal fel blaenoriaeth i wleidyddion a chanfyddiad y grŵp Rheolydd, a hynny er mwyn gweld i ba raddau yr oedd y naratif newydd wedi newid canfyddiadau.
2. Hunanadrodd: roedd yr ymchwil yn ffocysu ar ymatebion manwl i'r naratif trwy ofyn yn uniongyrchol i'r bobl sut yr oedd yn effeithio ar eu ffordd o feddwl.

Mae'r holiadur cyfan, ynghyd â manylion y sampl a recriwtiwyd, ar gael ar ffurf atodiad technegol ar wahân yma, ond, yn gyffredinol, strwythurwyd yr arolwg fel y dangosir yn Ffigur 4.



Ffigur 4: Strwythur yr arolwg

3 CANFYDDIADAU ALLWEDDOL

3.1 ADOLYGIAD O'R LLENYDDIAETH A DADANSODDIAD SEMIOTIG

Nododd yr **adolygiad o'r llenyddiaeth** nifer o themâu pwysig yn gysylltiedig â gofal – gan dynnu ar ffynonellau allweddol, fel y'u hamlinellir yn Nhabl 1 – a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r naratifau newydd.

Tabl 1: Themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg yn sgil yr adolygiad o'r llenyddiaeth

Themâu	Ffynonellau allweddol
Cyfraniad economaidd gofal	Carers UK. (2015). *Valuing Care 2015: The rising value of carers' support*[38] Women's Budget Group. (2020). *A Care-Led Recovery from Coronavirus*[39] David Goodhart. (2020). *Head, Hand, Heart: The Struggle for Dignity in the 21st Century*
Gofal fel daioni cymdeithasol	Oxfam. (2020). *Make Care Count*[40]
Gofal fel seilwaith	Women's Budget Group (2020) "Creating a Caring Economy: *A Call to Action*[41]
Anweledigrwydd gofalwyr	TUC. (2022). *Lifting the Veil: removing the invisibility of adult social care*[42] Ymgyrch We Care. (2022). Fideo ymgyrch *The Ones Who Care*[43]
Sgìl gofal	Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru. (2016). *Real-Life Perspectives on Unpaid Care*; Madeline Bunting. (2020). *Labours of Love: The Crisis of Care*
Prifysgol gofal	Sefydliad Joseph Rowntree. (2022). *Valuing and redesigning care will help solve poverty – and benefit all of us*[44]

Roedd y **dadansoddiad semiotig** yn nodi'r materion canlynol mewn perthynas â'r naratifau amlycaf ynghylch gofal:

- Maent yn rhoi amlygrwydd cymdeithasol isel i sgiliau gofalwyr a'r hyn y maent yn ei roi i gymdeithas, gan felly gyfrannu at ganfyddiadau bod i ofal werth isel.
- Maent yn cyflwyno gofalwyr fel unigolion ufudd a/neu llawn bwriadau da, sy'n gweithredu mewn amodau gwael ac (mewn perthynas â gweithwyr gofal) am gyflog isel, ac mae eu gweithredoedd buddiol unigol yn cael eu hanghofio.
- Maent yn canolbwyntio mwy ar ofal cymdeithasol am dâl, yn enwedig mewn cartrefi gofal, a llai ar y niferoedd mawr o ofalwyr di-dâl sy'n llai gweladwy.
- Maent yn anwybyddu pwysigrwydd gofal plant o gymharu â mathau eraill o ofal, sy'n aml yn cael ei ddarlunio'n fater personol/preifat, ac nid yn fater i'r llywodraeth.

3.2 DRAFFTIO'R CYSYNIADAU CYCHWYNNOL AR GYFER Y NARATIF

Gan ddefnyddio canfyddiadau'r adolygiad o'r llenyddiaeth a'r dadansoddiad semiotig, lluniwyd rhestr hir gychwynnol o 12 o gysyniadau ar gyfer y naratif, a'u grwpio o dan bedwar pennawd, fel y dangosir yn Figure 5.



Ffigur 5: Y rhestr hir gychwynnol o gysyniadau ar gyfer y naratif

Trafodwyd y rhestr hir â'r Grŵp Llywio Ymgynghorol, gyda'r nod o dynnu ar wybodaeth ac arbenigedd presennol i nodi'r cysyniadau mwyaf addawol i gael eu mireinio ymhellach ac yna'u harchwilio trwy grwpiau trafodaethau ansoddol. Roedd y myfyrdodau a'r ystyriaethau ynghylch y rhestr hir, ar y cyd â'r Grŵp Llywio Ymgynghorol, wedi canolbwyntio, er enghraifft, ar y potensial o gymhwyso cysyniadau ar draws mathau gwahanol o ofal; y modd yr oeddent yn cyd-fynd â'r defnydd newydd o naratifau seiliedig ar seilwaith ymhlith amryw o randdeiliaid a oedd yn galw am well fuddsoddiad mewn gofal; ac i ba raddau y byddai'r cysyniadau hyn yn atseinio'n gadarnhaol o ran profiadau gofalwyr, ac yn eu hadlewyrchu.

Nodwyd pedwar cysyniad i'w harchwilio'n ansoddol (Cam 3):

1. Gofal yw calon ein seilwaith cymdeithasol.
2. Heb ofal, mae pob un ohonom yn wynebu dyfodol ansicr.

3. Gwybodaeth, sgiliau a phriodweddau unigryw gofalu.
4. Gofal: grym ysgogol yr economi.

Roedd y pedwar cysyniad hyn yn cwmpasu amrywiaeth eang o safbwyntiau ar ofal. Roeddent hefyd yn themâu y gallai'r cyhoedd fod yn gyfarwydd â nhw, ond nid ar lefel arwyddocaol, ac felly roedd ganddynt y potensial i gael eu defnyddio i ail-lunio gofal mewn modd mwy cadarnhaol.

Datblygwyd y cysyniadau yn **naratifau drafft** (h.y. testun a negeseuon go iawn) a oedd yn ddigon 'cyflawn' i gael eu harchwilio mewn grwpiau trafodaethau ansoddol. Ni chawsant eu cyflwyno'n naratifau diffiniadol i gyfranogwyr y grwpiau, gan adael lle i'r cyfranogwyr ymateb i elfennau unigol pob naratif a'u datblygu. Crynhoir datblygiad y naratif hyd at y cam hwn yn Figure 6.

Ffigur 6: Y broses o ddatblygu'r naratif: o ddeuddeg o gysyniadau ar gyfer y naratif i bedwar naratif drafft

Mae'r pedwar naratif drafft a archwiliwyd trwy gyfrwng y grwpiau trafodaethau ansoddol yn cael eu hamlinellu yn yr atodiad technegol yma, yn rhan o'r canllaw i'r pynciau a ddefnyddiwyd i gynnal y grwpiau trafodaethau ansoddol.

3.3 GRWPIAU TRAFODAETHAU ANSODDOL

Roedd y grwpiau trafodaethau ansoddol wedi canolbwyntio ar archwilio'r canlynol:

- Y canfyddiadau o ofal a'r rhwystrau i roi mwy o werth arno, yn cynnwys y cysyniad o ofal, ei rôl mewn cymdeithas, a'r amrywiaeth o rolau gofalu penodol.
- Y pedwar naratif drafft, er mwyn deall sut y gallent newid canfyddiadau o ofal, ac i ba raddau, a meithrin cefnogaeth ar gyfer polisïau sy'n berthnasol i well cymorth i ofalwyr.

3.3.1 Y canfyddiad cyffredinol o ofal

O ran y canfyddiadau o ofal, tynnodd y grwpiau trafod sylw at y canlynol:

- Roedd y pandemig wedi cynyddu'r gwerth y mae pobl yn ei roi ar ofal a gofalu. Roedd yn adeg pan fu i gymdeithas ddod yn fwy gofalgar. Mae hyn wedi gadael ei ôl, lle mae pawb yn unigol yn cydnabod pwysigrwydd cymdeithas ofalgar.
- Roedd yna gytundeb cyson ymhlith y cyfranogwyr nad yw pobl sy'n darparu gofal (am dâl ac yn ddi-dâl) yn aml yn cael eu cydnabod, ac nad ydynt yn cael eu gwobrwyo digon. Roedd yna ddadl ynghylch y sgiliau perthnasol sy'n ofynnol ar gyfer gwaith gofal, a'r modd y cânt eu canfod – ond ni chafwyd trafodaeth am ofal fel gwaith caled.
- Ni roddwyd gwerth cyfartal ar bob gwaith gofal. Yn benodol, roedd yna ddealltwriaeth bod gofal plant am dâl a di-dâl a gofal oedolion di-dâl yn gofyn am lai o sgiliau neu gymwyseddau na gofal oedolion am dâl.
- Er bod yna gydnabyddiaeth o werth gofal ar lefel yr unigolyn, nid ystyrid bod cymdeithas yn ei chyfanrwydd, na'r llywodraeth na'r sector preifat yn rhoi gwerth arno. Amlygid hyn ar ffurf siniciaeth ddirwgnach – ystyrid gofalwyr am dâl a gofalwyr di-dâl yn grwpiau cymharol dawel y mae'n rhwydd i lywodraethau a chymdeithas eu hanwybyddu.

- Bu i'r ymatebwyr grybwyll diffyg naratif eang a rennir ynghylch buddion cyfunol a chadarnhaol gofal fel un o'r rhesymau pam na fu iddynt feddwl ar unwaith am y diffyg gwerthfawrogiad o ofal/ofalwyr fel mater brys i fynd i'r afael ag ef.
- Felly, roedd ymdeimlad cymhellol o fudd cyfunol yn absennol o ddealltwriaeth pobl o ofal. Mae'r cyfeiriadau cadarnhaol at 'Roi Clap i Ofalwyr' yn ystod y grwpiau trafod yn dangos pa mor effeithiol y gall naratif cadarnhaol ynghylch buddion cyfunol fod o ran newid safbwyntiau a blaenoriaethau.
- Roedd hefyd yn amlwg y byddai'n rhaid i unrhyw naratif newydd gysylltu'r holl fathau gwahanol o weithgareddau gofal a rolau gofalwyr er mwyn helpu i gynyddu gwerth y rheiny yr ystyrir eu bod yn llai pwysig.

3.3.2 Yr ymatebion i'r naratifau drafft

Daeth dau ganfyddiad cyffredinol i'r amlwg yn sgil adwaith yr ymatebwyr i'r pedwar naratif drafft:

- Wrth ddod allan o'r pandemig, roedd gan yr ymatebwyr fwy o ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad o ofal, a oedd yn golygu eu bod yn barod iawn i dderbyn y naratifau drafft. Roedd pob un o'r pedwar naratif, i amrywiol raddau, wedi cyflawni'n dda o ran apêl a newid barn pobl am ofalwyr.
- Fodd bynnag, roedd gofal yn cystadlu am le ym meddyliau pobl yn erbyn materion difrifol eraill, megis yr argyfwng costau byw. Roedd yna hefyd ymdeimlad cyffredinol nad oedd gan y llywodraeth fawr ddim diddordeb mewn gwneud newidiadau pendant o ran darparu rhagor o gymorth i ofalwyr, ac roedd hwn yn besimistiaeth a estynnai i wasanaethau cyhoeddus eraill, megis y GIG.

Er i'r pedwar naratif drafft gyflawni'n dda o ran eu potensial i newid canfyddiadau'r ymatebwyr o ofal mewn ffyrdd gwahanol, roedd y newidynnau allweddol canlynol wedi galluogi cymhariaeth bellach o'u heffaith:

a. **Apêl emosiynol:** y graddau yr oedd naratif yn cyffroi pobl ac yn ennyn empathi.
b. **Apêl resymegol:** y graddau yr oedd naratif yn argyhoeddiadol neu'n gredadwy.
c. **Gwerth gofal:** y graddau yr oedd naratif yn pledio achos dros ailasesu gwerth gofal.
d. **Achos dros newid:** y graddau yr oedd naratif yn ennyn ymdeimlad o angen di-oed am newid.

Roedd y newidynnau hyn yn chwarae rôl bwysig o ran nodi pa un o'r naratifau i'w ddatblygu ymhellach ar gyfer y cam profi ansoddol. Yn benodol:

- Mae cydbwysedd da rhwng apêl emosiynol a rhesymegol yn bwysig yn achos naratif am fod yn rhaid iddo gymell pobl a hefyd deimlo'n ddigon credadwy i'w rannu ag eraill.
- O wybod mai prif amcan y prosiect oedd newid canfyddiadau o werth gofal, roedd hefyd yn hanfodol bod y naratif yn cyflawni'n dda ar y sail hon.
- Mae'n rhaid i naratif gyflwyno achos dros newid er mwyn ysgogi rhyw fath o weithredu o du'r cyhoedd.

Mae Figure 7 yn dangos y modd y bu i bob naratif gyflawni'n unol â'r dimensiynau hyn, ac mae Tabl 2 yn crynhoi adborth gan y grwpiau trafodaethau ansoddol ar bob un o'r naratifau drafft ar draws y newidynnau.



Ffigur 7: Cymharu naratifau drafft ar draws y newidynnau allweddol

Tabl 2: Adborth gan grwpiau ansoddol ar y pedwar naratif drafft

	(1) Gofal yw calon ein seilwaith cymdeithasol	**(2) Heb ofal, mae pob un ohonom yn wynebu dyfodol ansicr**	**(3) Gwybodaeth, sgiliau a phriodweddau unigryw gofalu**	**(4) Gofal: grym ysgogol yr economi**
Apêl emosiynol	Wedi gwneud i bobl deimlo'n **ddiolchgar** i'r rheiny sy'n gwneud gwaith nad yw'n cael ei gydnabod na'i wobrwyo.	Wedi creu **ymdeimlad o ofn** o'r hyn a allai ddigwydd pe na fyddai gofal ar gael neu pe byddai o ansawdd gwael.	Roedd yr ymatebwyr yn cael eu **cymell** i weld gofalwyr yn cael eu cydnabod ac i fwy o hygrededd proffesiynol gael ei roi i'w sgiliau. Roedd gweld gofalwyr mewn goleuni newydd wedi **synnu**'r ymatebwyr.	Roedd yr ymatebwyr wedi'u **synnu'n wirioneddol** o weld gofal yn cael ei gyfleu fel elfen sy'n cyfrannu at yr economi, a hynny am fod gwasanaethau cyhoeddus yn gwneud i'r gwrthwyneb yn ôl y ffordd arferol o'u cyfleu.
Apêl resymegol	Yn **atseinio'r** ffordd yr oedd pobl yn meddwl, ond yn cael ei fynegi mewn modd nad oeddent wedi ei weld mewn geiriau o'r blaen, gan gynnig gweledigaeth newydd o ofal.	Roedd pobl yn **cydnabod** ac yn **cytuno** y gallai gofal fod yn ofynnol iddynt hwy ac eraill yn y dyfodol. Yn ennyn **amheuaeth** ynghylch ansawdd y	Wedi cyflawni'n **gymharol wan**, a hynny am fod yr ymatebwyr yn cwestiynu hygrededd rhai o'r honiadau.	Wedi i'r syndod cychwynnol bylu, daeth **agwedd fwy amheus** i'r amlwg, a dechreuodd rhai ymatebwyr graffu ar y ffigurau a chwestiynu'r modd y cawsant eu cyfrifo.

		gofal ar gyfer pobl oedrannus.		
Gwerth gofal	Wedi **creu syndod** o ganlyniad i ddangos cynifer y gofalwyr (am dâl a di-dâl) yn y DU.	Wedi tueddu i ysgogi **myfyrdod personol eithaf rhesymegol** yn hytrach na pheri i'r ymatebwyr feddwl am werth gofalwyr. At hynny, roedd yna **ffocws cryf ar fathau penodol o ofal**, a olygai ei bod yn anodd edrych ar fuddion ehangach gofal, ledled y gymdeithas.	Wedi annog **gwerthfawrogiad** o'r hyn y mae gofalwyr yn ei wneud o ddydd i ddydd mewn gwirionedd.	Ystyrid bod **cymariaethau** ffafriol â sectorau proffil uchel, gwerth uchel yn ffordd rymus o newid canfyddiadau o werth gofal. Ond roedd yna hefyd deimlad bod hyn yn 'rhy dda i fod yn wir', ac os oedd hyn yn wir, y byddai'r sefyllfa fanteisiol hon i'r economi yn annhebygol o beri i'r llywodraeth newid unrhyw beth.
Achos dros newid	**Teimladau dwysach o anghyfiawnder** ynghylch y modd y mae gofalwyr yn cael eu trin gan gymdeithas/ lywodraethau, trwy ddangos rôl gronnus a chanolog gofal mewn cymdeithas. Absenoldeb galwad i weithredu, ond roedd y canlyniadau a amlinellir yn adran olaf y naratif wedi helpu i greu rhywfaint o frys.	Wedi tynnu ar **ymwybyddiaeth gynyddol** pobl o effeithiau poblogaeth sy'n heneiddio. Wedi cymell ymdeimlad o frys dros newid.	Roedd yr ymatebwyr wedi'u **hysbrydoli** gan fuddion mwy dynol ac emosiynol gofalu. Fodd bynnag, cododd rhai bryderon ynghylch y perygl o **osod cynseiliau na allai pob gofalwr eu bodloni**, gan felly gau allan y rhai nad oeddent yn eu gweld eu hunain yn y naratif, neu o ddwysáu'r gwahaniaeth canfyddedig rhwng mathau o ofal mwy proffesiynol a gofal di-dâl. Rhywfaint o ddryswch ynghylch diben y naratif o ganlyniad i ddiffyg budd ehangach clir.	Gallai amheuaeth ynghylch y modd y mae gofal yn cynhyrchu gwerth economaidd weithio yn erbyn ennill cefnogaeth y cyhoedd ar gyfer rhagor o fuddsoddiad mewn gofal.

Yn gyffredinol	Yn cydbwyso buddion cyfunol gofal, ffeithiau credadwy, a chanlyniadau diffyg cymorth i ofalwyr.	Yn pwysleisio effaith bersonol diffyg buddsoddiad mewn gofal.	Yn canolbwyntio ar yr unigolyn a sgiliau gofalwyr a ddiystyrir.	Yn rhoi pwyslais ar ffigurau a chyfraniad economaidd gofal.

Y naratif *Gofal yw calon ein seilwaith cymdeithasol* a gyflawnodd y cydbwysedd gorau ar draws y newidynnau, a hynny trwy gyfuno pwyslais ar fudd cyfunol gofal â ffeithiau credadwy a chyfrif o'r canlyniadau os na ddarperir rhagor o gymorth i ofalwyr. A dweud y gwir, mae'r naratif hwn:

- Yn pwysleisio bod gofalu yn weithgarwch ar y cyd sy'n sicrhau bod cymdeithas yn gweithredu o ddydd i ddydd.
- Yn dangos pa mor niferus yw gofalwyr, a'r amrywiaeth o gyfrifoldebau gofalu sydd ganddynt.
- Yn darparu 'naratif ymbarél' y gellir ei ddefnyddio i ail-lunio amrywiaeth eang o faterion gofal.
- Yn atseinio'n emosiynol gyda'r ymatebwyr, yn ogystal â chyfleu ffeithiau.

Yn seiliedig ar hyn, aed ati i fireinio'r naratif a'i gymeradwyo ar gyfer ei brofi'n feintiol yng ngham olaf yr ymchwil.

3.3.3 Cadarnhau'r naratif i'w brofi'n feintiol

Aed ati i ddatblygu'r naratif *Gofal yw calon ein seilwaith cymdeithasol* ymhellach, i'w brofi mewn modd meintiol. Roedd y **naratif terfynol a brofwyd yn feintiol (yn Saesneg) yn cynnwys tair adran allweddol:**

- **Cynsail** sylfaenol, sy'n amlinellu gofal fel gweithgarwch cyfunol sy'n dal cymdeithas at ei gilydd.
- Datganiad **Tystiolaeth**, sy'n amlygu ffeithiau allweddol am hyd a lled a natur pob gofal ledled y DU – a hynny o ran niferoedd a gweithgareddau, fel ei gilydd. Mae'n bwysig nodi mai nod y datganiad Tystiolaeth yw darparu fframwaith hyblyg y gellir ei addasu ar gyfer data a dadansoddiadau newydd sy'n dod ar gael.
- Tri **Datganiad Effaith** gwahanol sy'n disgrifio canlyniadau negyddol peidio â darparu mwy o gymorth i ofalwyr a buddsoddi mwy ynddynt, a hynny o dri safbwynt gwahanol:
    - **Darpariaeth** ar gyfer gofalwyr, sy'n canolbwyntio ar yr effeithiau ar y seilwaith iechyd a gofal cyffredinol, ynghyd ag ar lesiant cymdeithas yn ehangach;
    - Canlyniadau **economaidd** diffyg cymorth/buddsoddiad i ofalwyr;
    - **Derbynwyr gofal**, sy'n canolbwyntio ar y rheiny y mae arnynt angen gofal o ganlyniad i salwch, anabledd a henaint.

Cynsail

Bob dydd ledled y DU, mae gwaith gofalwyr am dâl a gofalwyr di-dâl yn helpu i ddal cymdeithas at ei gilydd – y rhwydwaith anweledig o gymorth, empathi a gofal ar gyfer y bobl y mae arnynt ei angen fwyaf, ac sy'n cefnogi ein seiliau cymdeithasol ac economaidd.

Tystiolaeth

Yn y DU, mae dros 10 miliwn[45] o bobl yn darparu gofal di-dâl a gofal am dâl – mae hynny'n fwy nag 1 o bob 5 o bobl. Maent yn helpu ein plant i dyfu a dysgu, yn cefnogi annibyniaeth pobl anabl, yn sicrhau bod ein perthnasau oedrannus yn byw bywydau boddhaus, ac yn cadw ein cartrefi i fynd.

Datganiad Effaith 1 (Darpariaeth): Y modd y bydd gwell darpariaeth i ofalwyr yn lleihau dioddefaint ac yn arbed bywydau

Heb ragor o fuddsoddiad mewn gofalwyr a chymorth iddynt, bydd yna ganlyniadau difrifol i gymdeithas:

Bydd y GIG yn cael mwy o anhawster ymdopi nag y mae ar hyn o bryd hyd yn oed, gan olygu y bydd mwy o bobl yn dioddef a mwy o bobl yn marw'n ddiangen – mae gofal cymdeithasol a ariennir yn briodol yn allweddol i fynd i'r afael â'r broblem hon sy'n gwaethygu.

Ond mae llawer o ofalwyr dan bwysau yn barod, yn cael eu tanbrisio ac yn cael trafferthion ariannol, felly heb ragor o fuddsoddiad mewn gofalwyr am dâl a gofalwyr di-dâl, fel ei gilydd, mae dyfodol a llesiant ein hanwyliaid mewn perygl.

Datganiad Effaith 2 (Economaidd): Y modd y gall diffyg cymorth i ofalwyr eu gyrru tuag at dlodi

Heb ragor o fuddsoddiad mewn gofalwyr a chymorth iddynt, bydd yna ganlyniadau economaidd difrifol i ofalwyr:

Ar gyfartaledd, mae 600 o bobl y dydd yn gorfod gadael cyflogaeth er mwyn gofalu'n ddi-dâl am berthnasau hŷn ac anabl, a hynny oherwydd diffyg cymorth yn y gweithle.[46]

Heb allu cyrchu gofal plant yn gyffredinol, ni all llawer o rieni sydd am ddychwelyd i'r gwaith wneud hynny, neu mae'n rhaid iddynt gymryd swyddi cyflog isel er mwyn gallu gofalu am eu plant.

Gall hyn gael effaith ddifrifol ar incwm gofalwyr, a chaiff nifer ohonynt eu tynnu i dlodi.

Datganiad Effaith 3 (Derbynwyr gofal): Y modd y bydd diffyg cymorth i ofalwyr yn cael effaith negyddol ar y rhai sy'n derbyn gofal

Heb ragor o fuddsoddiad mewn gofalwyr a chymorth iddynt, bydd yna ganlyniadau difrifol i'r rheiny y mae arnynt angen gofal fwyaf mewn cymdeithas:

Byddai ein profiad o henaint yn llawer llai cadarnhaol – yn gweld colled y cysylltiad dynol a heb y maeth emosiynol y mae ei hangen i fyw bywyd boddhaus.

Byddai pobl anabl yn ei chael yn fwy anodd byw bywydau gwerth chweil, annibynnol, a byddai'r rheiny â salwch difrifol yn cael trafferth byw â'r urddas y maent yn ei haeddu.

3.4 PROFI MEINTIOL

Mae'r canfyddiadau meintiol yn canolbwyntio ar:

- Effaith y naratif llawn (Cynsail + Tystiolaeth + unrhyw un o'r tri Datganiad Effaith) ar y modd y mae pobl yn blaenoriaethu gofal yn fater polisi (o gymharu â materion eraill).
- Effaith pob rhan o'r naratif (Cynsail, Tystiolaeth a phob Datganiad Effaith), yn ogystal â'r naratif llawn ynghylch barn pobl eu hunain am ofal, barn gyfunol am ofal, a'r cymhelliant i weithredu i wella'r cymorth ar gyfer gofalwyr.
- Safbwyntiau (ledled yr holl ymatebwyr, pa un a oeddent wedi gweld y naratif ai peidio – gweler Adran 2.3.3 ar gyfer y manylion) o ran pwy sy'n gyfrifol am ddarparu rhagor o gymorth i ofalwyr; a'r hyn y gellid ei wneud i'w cefnogi.

3.4.1 Effaith y naratif ar y farn bod gofal yn fater polisi allweddol

Bu i ofal fel blaenoriaeth i wleidyddion gynyddu'n sylweddol yn achos yr ymatebwyr a oedd wedi gweld y naratif, a hynny ar draws pob un o'r tri Datganiad Effaith.

Fel y dangosir yn Figure 8, roedd 16% o'r grŵp Rheolydd (*nad* oedd wedi gweld y naratif) yn ystyried gofal yn un o'r tair blaenoriaeth uchaf i wleidyddion. Yn achos yr ymatebwyr a oedd wedi gweld y naratif, roedd dros 38% (ar gyfartaledd, ar draws y tri Datganiad Effaith) yn ystyried gofal yn un o'r tair blaenoriaeth uchaf i wleidyddion.[47]



(+xx) = y gwahaniaethau o gymharu â'i weld ymlaen llaw

XX% Sylweddol uwch na'r gell reolydd @95%

Q1a / PQ1a. Dewiswch y pum mater pwysicaf a ddylai fod yn brif flaenoriaethau i wleidyddion yn ystod y blynyddoedd nesaf yn eich barn chi. Sylfaen: Cyfanswm y Rheolydd n=739 Cell 1 Darpariaeth n=764 Cell 2 Economaidd n=741 Cell 3 Derbynwyr gofal n=756. (+Canran) = gwahaniaeth o gymharu â'i weld ymlaen llaw. XX% Yn sylweddol uwch na'r gell reolydd, sy'n 95%.

Ffigur 8: Sgorio gofal fel un o'r tair prif flaenoriaeth i wleidyddion yn ystod y blynyddoedd nesaf

Gwelwyd y cynnydd ystadegol arwyddocaol hwn mewn amlygrwydd ar draws pob demograffeg a ystyriwyd; er bod yna ychydig o wahaniaethau o ran y modd y bu i rai grwpiau roi mwy o flaenoriaeth i ofal ar ôl gweld y naratif, nid oedd yr un yn ystadegol arwyddocaol. Gwelwyd effaith fymryn yn fwy cadarnhaol o ran cynyddu amlygrwydd gofal ymhlith:

- Ymatebwyr yng Nghymru a'r Alban o gymharu â'r rheiny yn Lloegr.
- Y rhai 35 oed a hŷn o gymharu â'r rhai o dan 35 oed.
- Menywod o gymharu â dynion – cynyddodd amlygrwydd yn sylweddol yn achos y dynion a ddarllenodd y naratif, ond roeddent wedi dechrau ar waelodlin is.
- Ymatebwyr gwyn o gymharu â rhai Du ac Ethnig Leiafrifol.[48]
- Ymatebwyr o'r dosbarth cymdeithasol is (C2DE) o gymharu â'r dosbarth cymdeithasol uwch (ABC1) – cynyddodd amlygrwydd yn sylweddol yn achos unigolion ABC1 a welodd y naratifau, ond roeddent wedi dechrau ar waelodlin is.
- Gofalwyr oedolion, y rheiny heb unrhyw brofiad o ofal, a'r rhai â phlant o gymharu â'r rhai sy'n gofalu am blant anabl – yma, mae'n bwysig nodi bod y grŵp olaf eisoes yn fwy tebygol o ystyried gofal yn flaenoriaeth uchel.
- Y rheiny sy'n gwyro i'r chwith o gymharu â'r rheiny sy'n gwyro i'r dde.

Y ddemograffeg a ddangosodd y cynnydd lleiaf amlwg oedd yr ymatebwyr Du ac Ethnig Leiafrifol. Mae'n bosibl bod nifer o ffactorau yn chwarae rôl yn hyn o beth. Mae hyn yn cynnwys normau gwahanol o ran gofalu mewn cymunedau – dengys adroddiad diweddar gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru[49] fod pobl mewn rhai cymunedau Du ac Ethnig Leiafrifol yn llai tebygol o uniaethu â 'gofalwyr'; mae yna hefyd ddiffyg ffydd ym mhosibiliadau cynnydd cymdeithasol ac ymdeimlad o gael eu hymylu rhag cyfranogi mewn materion cenedlaethol. Mae angen gwneud rhagor o ymchwil i wahanu grwpiau sy'n dod o dan yr ymbarél hon ac i ddeall pa fath o negeseuon a allai fod hyd yn oed yn fwy effeithiol.

Mae hefyd yn werth nodi bod y canlyniadau ymhlith ymatebwyr Du ac Ethnig Leiafrifol yn amlygu gwahaniaethau sylweddol o gymharu â chanlyniadau ymatebwyr gwyn pan ofynnwyd iddynt am faterion polisi â blaenoriaeth. Roedd tai a threth yn sylweddol uwch, er enghraifft, ac, ar y cyfan,

roedd dosbarthiad y materion blaenoriaeth yn ehangach nag yn achos ymatebwyr gwyn. Gallai hyn awgrymu, yn syml, mai rhan o'r rheswm dros ymateb is mewn perthynas ag amlygrwydd gofal fel mater polisi yw amrywiaeth ehangach rhagweladwy o faterion ar gyfer y grŵp heterogenaidd hwn.

Yn gyffredinol, gweithiodd y tri Datganiad Effaith yn dda iawn o ran cynyddu amlygrwydd gofal ledled pob demograffeg; fodd bynnag, pe byddid yn dewis rhwng y Datganiadau Effaith i deilwra negeseuon ar gyfer grwpiau demograffig penodol, mae i'r canlynol fantais ymylol:

- Datganiad Effaith 1 (Darpariaeth) – yn fwyaf effeithiol ymhlith y rheiny sy'n gofalu am oedolion neu blant ag anghenion cymorth ychwanegol.
- Datganiad Effaith 2 (Economaidd) – yn fwyaf effeithiol ymhlith cynulleidfaoedd iau (dan 35 oed) a'r rheiny sy'n gwyro i'r chwith, yn ogystal ag ymhlith menywod a chynulleidfaoedd y dosbarth cymdeithasol is (C2DE).
- Datganiad Effaith 3 (Derbynwyr gofal) – yn fwyaf effeithiol yn achos cynulleidfaoedd o Gymru a'r Alban, ymatebwyr sy'n gwyro i'r dde, a chynulleidfaoedd hŷn (55+), yn ogystal â dynion, cynulleidfaoedd Du ac Ethnig Leiafrifol, cynulleidfaoedd y dosbarth cymdeithasol uwch (ABC1), a'r rheiny sy'n byw gyda phlant.

3.4.2 Profi'r Cynsail

Roedd yna gytundeb cryf â Chynsail cyffredinol y naratif – roedd 85% yn cytuno.[50]

Roedd y cytundeb ar ei gryfaf ymhlith y ddemograffeg ganlynol: cynulleidfaoedd hŷn (55+), cynulleidfaoedd gwyn, y rheiny sy'n gofalu am oedolion, cynulleidfaoedd sy'n gwyro i'r chwith, cynulleidfaoedd sy'n gwyro i'r dde, a phobl yng Nghymru a'r Alban.

Roedd y cytundeb ar ei wannaf ymhlith pobl dan 35 oed, cynulleidfaoedd Du ac Ethnig Leiafrifol, a'r rheiny sy'n gofalu am blant.

Bu i'r Cynsail hefyd newid agwedd pobl at ofalwyr yn achos bron chwech o bob deg ymatebydd (yn seiliedig ar newidiadau hunangofnodedig i safbwyntiau).[51]

Roedd hyn fwyaf amlwg yn achos: pobl dan 35 oed, menywod, cynulleidfaoedd Du ac Ethnig Leiafrifol, pobl yng Nghymru a'r Alban, y rheiny sy'n gofalu am blant, a'r rheiny sy'n gofalu am oedolion.

Mae'n nodedig bod y Cynsail wedi llwyddo i newid agwedd pobl at ofalwyr ymhlith rhai o'r grwpiau demograffig a oedd yn amlygu cytundeb is â'r Cynsail.

O ran y modd y bu i'r Cynsail newid agweddau pobl at ofalwyr, fel y gwelir yn Figure 9, nododd mwyafrif yr ymatebwyr fod y Cynsail wedi peri iddynt werthfawrogi'r gwaith y mae gofalwyr yn ei wneud yn fwy, neu i feddwl rhagor am y ffaith nad yw gofalwyr yn cael eu gwerthfawrogi ddigon; yn achos rhai, bu i'r datganiad eu hysgogi i feddwl am effaith gofalwyr ar gymdeithas; dim ond 20% a nododd dim newid o gwbl.



Q3 – Sut y mae'r datganiad yn newid eich ffordd o feddwl am ofalwyr, os o gwbl? Sylfaen: Y cyfanswm yng Nghelloedd 1-3 n=2261.

Ffigur 9: Y modd y mae'r Cynsail yn newid ffyrdd o feddwl am ofalwyr

3.4.3 Profi'r Dystiolaeth

Roedd yna gytundeb cryf â Thystiolaeth y naratif – roedd 81% yn cytuno.

Roedd hyn ar ei gryfaf ymhlith: cynulleidfaoedd hŷn (55+), cynulleidfaoedd gwyn, cynulleidfaoedd y dosbarth cymdeithasol uwch (ABC1), y rheiny sy'n gofalu am blant, y rheiny sy'n gofalu am oedolion, y rheiny sydd â phlant 0-15 oed, cynulleidfaoedd sy'n gwyro i'r dde, a phobl yng Nghymru a'r Alban.

Roedd hyn ar ei wannaf ymhlith pobl dan 35 oed, ymatebwyr Du ac Ethnig Leiafrifol, a'r rheiny heb unrhyw brofiad o ofalu.

Unwaith eto, dim ond 20% o'r sampl a nododd nad oedd y datganiad Tystiolaeth wedi newid eu barn, tra bu i nifer sylweddol o'r ymatebwyr nodi eu bod naill ai'n gwerthfawrogi cyfraniad gofalwyr fwy, neu eu bod yn meddwl mwy am y mathau gwahanol o ofalwyr neu am gynifer y gofalwyr sy'n bodoli (Ffigur 10).



C6 – Sut y mae'r datganiad yn newid eich ffordd o feddwl am ofalwyr, os o gwbl? Sylfaen: Y cyfanswm yng Nghelloedd 1-3 n=2261.

Ffigur 10: Y modd y mae'r Datganiad Tystiolaeth yn newid ffyrdd o feddwl am ofalwyr

3.4.4 Profi'r Datganiadau Effaith

Pan brofwyd y tri Datganiad Effaith yn unigol, bu i bob un gyflawni'n dda o ran lefel y cytundeb â'r datganiadau, yn ogystal â'r newid hunangofnodedig i'r farn am ofal. Dim ond mân wahaniaethau a oedd yn bodoli o ran y modd yr oedd pobl yn asesu pob Datganiad Effaith.

Roedd yna gytundeb cryf â Datganiad Effaith 1 (Darpariaeth) – gydag 86% yn cytuno.

- Roedd hyn fwyaf amlwg yn achos: menywod, cynulleidfaoedd hŷn (55+), ymatebwyr Du ac Ethnig Leiafrifol, y rheiny sy'n gofalu am oedolion, y rheiny â phlant 0-15 oed, a chynulleidfaoedd sy'n gwyro i'r chwith.
- Roedd 65% o'r bobl yn cytuno bod y datganiad wedi newid eu hagwedd eu hunain at ofalwyr, ac roedd 70% yn cytuno y byddai'n newid agwedd pobl eraill at ofalwyr.
- Roedd 85% yn cytuno ei fod yn gwneud iddynt deimlo bod angen i rywbeth gael ei wneud fel mater o flaenoriaeth.

Roedd yna gytundeb cryf â Datganiad Effaith 2 (Economaidd) – gydag 83% yn cytuno.

- Roedd hyn fwyaf amlwg yn achos: menywod, ymatebwyr Du ac Ethnig Leiafrifol, cynulleidfaoedd y dosbarth cymdeithasol uwch (ABC1), y rheiny sy'n gofalu am oedolion, a chynulleidfaoedd sy'n gwyro i'r chwith.
- Roedd 64% o'r bobl yn cytuno ei fod wedi newid eu hagwedd eu hunain at ofalwyr, ac roedd 72% yn cytuno y byddai'n newid agwedd pobl eraill at ofalwyr.
- Roedd 83% yn cytuno ei fod yn gwneud iddynt deimlo bod angen i rywbeth gael ei wneud fel mater o flaenoriaeth.

Roedd yna gytundeb cryf â Datganiad Effaith 3 (Derbynwyr gofal) – gydag 84% yn cytuno.

- Roedd hyn fwyaf amlwg yn achos: menywod, cynulleidfaoedd o Gymru a'r Alban, cynulleidfaoedd hŷn (55+), cynulleidfaoedd gwyn, ymatebwyr y dosbarth cymdeithasol uwch (ABC1), y rheiny sy'n gofalu am oedolion, y rheiny sy'n gofalu am blant, a chynulleidfaoedd sy'n gwyro i'r dde.
- Roedd 65% o'r bobl yn cytuno ei fod wedi newid eu hagwedd eu hunain at ofalwyr, ac roedd 69% yn cytuno y byddai'n newid agwedd pobl eraill at ofalwyr.
- Roedd 82% yn cytuno ei fod yn gwneud iddynt deimlo bod angen i rywbeth gael ei wneud fel mater o flaenoriaeth.

Er mai dim ond mân wahaniaethau a oedd yn bodoli rhwng yr ymatebion i'r datganiadau Effaith, gallem ddamcaniaethu y gallai Datganiad Effaith 1 (Darpariaeth) fod wedi ennyn ymdeimlad fymryn yn gryfach o flaenoriaeth am ei fod yn siarad am y GIG. Gwelodd Datganiad Effaith 1 hefyd radd uwch o gytundeb ymhlith cynulleidfaoedd Du ac Ethnig Leiafrifol, a hynny eto, o bosibl, am fod yna gynrychiolaeth uwch ohonynt yn y GIG a'u bod yn teimlo bod ganddynt fwy o gysylltiad ag ef.

Gwelodd Datganiad Effaith 2 (Economaidd) radd uwch o gytundeb ymhlith cynulleidfaoedd sy'n gwyro i'r dde, sy'n awgrymu bod iddo apêl fwy personol, unigol.

3.4.5 Profi'r naratif llawn

Y cam olaf oedd profi'r 'naratif llawn', a oedd yn golygu dangos yr un Cynsail a Thystiolaeth i'r tri grŵp Triniaeth, ynghyd ag un o'r datganiadau Effaith.

Fel y dangosir yn Ffigur 11, roedd y cytundeb â phob un o dri amrywiad y naratif llawn yn gryf.



Q12 – 'Nawr edrychwch ar bopeth yr ydych wedi'i ddarllen, a'i ystyried yn ofalus. I ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno ag ef? Sylfaen: Cyfanswm Cell 1 Darpariaeth n=764 Cell 2 Economaidd n=741 Cell 3 Derbynwyr gofal n=756

Ffigur 11: Cytundeb â'r naratifau llawn (Cynsail + Tystiolaeth + unrhyw un o'r tri Datganiad Effaith)

Teimlai'r ymatebwyr fod y naratif wedi newid eu meddwl am ofalwyr, ac y gallai hefyd newid barn pobl eraill am ofalwyr.

Mae'r lefel uchel o gytundeb ynghylch y ffaith y gallai'r naratifau newid meddyliau pobl eraill fel arfer yn arwydd cadarnhaol am ei fod yn awgrymu y byddai pobl yn teimlo'n gyfforddus i'w rhannu ag eraill. Mae hon yn agwedd bwysig ar ledaenu naratifau.

Y canfyddiad allweddol yw bod holl elfennau'r naratif wedi cyflawni'n dda ymhlith pob un o'r is-grwpiau diddordeb, ond eu bod yn arbennig o effeithiol ymhlith y grwpiau canlynol:

- Cynsail + Tystiolaeth + Datganiad Effaith 1 (Darpariaeth) – menywod, gofalwyr oedolion, y rheiny sy'n byw gyda phlant.
- Cynsail + Tystiolaeth + Datganiad Effaith 2 (Economaidd) – gwyn, gofalwyr oedolion.
- Cynsail + Tystiolaeth + Datganiad Effaith 3 (Derbynwyr gofal) – gofalwyr oedolion.

Roedd yna gytundeb da ei bod yn ofynnol gwneud rhywbeth fel mater o flaenoriaeth ar draws y naratif – roedd 85% yn cytuno, ar gyfartaledd, ac roedd bron hanner y sampl yn cytuno'n gryf (gweler Ffigur 12).



Q16 – Gan barhau i feddwl yn ofalus amdano, faint y mae'r datganiad cyfan hwn yn gwneud i chi deimlo ei bod yn ofynnol gwneud rhywbeth yn ei gylch fel mater o flaenoriaeth? Sylfaen: Cyfanswm Cell 1 Darpariaeth n=764 Cell 2 Economaidd n=741 Cell 3 Derbynwyr gofal n=756.

Ffigur 12: Galwad i weithredu ar ôl gweld y naratif cyfan

O ran y camau gweithredu y byddai'r ymatebwyr yn fwyaf tebygol o'u cymryd, llofnodi deiseb oedd y cam mwyaf tebygol ar draws pob naratif (ni waeth pa Ddatganiad Effaith yr oedd yn ei gynnwys), ac yn dilyn hyn cafwyd siarad â ffrindiau a theulu am y mater. Dywedodd traean y byddai'r naratifau yn dylanwadu ar eu penderfyniadau o ran pleidleisio.

O ran demograffeg:

- Roedd llofnodi deiseb yn gryfach ymhlith: pobl 35-54 oed, cynulleidfaoedd gwyn, ymatebwyr y dosbarth cymdeithasol is (C2DE), y rheiny o Gymru, y rheiny sy'n gofalu am oedolion, a chynulleidfaoedd sy'n gwyro i'r chwith.
- Roedd siarad â ffrindiau a theulu yn gryfach ymhlith: pobl dan 35 oed, cynulleidfaoedd Du ac Ethnig Leiafrifol, y rheiny o'r Alban, y rheiny sy'n gofalu am blant, y rheiny sy'n gofalu am oedolion, y rheiny sy'n byw gyda phlant 1-15 oed, a chynulleidfaoedd sy'n gwyro i'r chwith.
- Roedd dylanwadu ar ddewisiadau o ran pleidleisio yn gryfach ymhlith: cynulleidfaoedd hŷn (55+), cynulleidfaoedd gwyn, menywod, ymatebwyr y dosbarth cymdeithasol uwch (ABC1), y rheiny o Gymru, y rheiny sy'n gofalu am blant, y rheiny sy'n gofalu am oedolion, y rheiny sy'n byw gyda phlant 0-15 oed, a chynulleidfaoedd sy'n gwyro i'r chwith.
- Roedd postio ar y cyfryngau cymdeithasol yn gryfach ymhlith: pobl dan 55 oed, menywod, cynulleidfaoedd Du ac Ethnig Leiafrifol, ymatebwyr y dosbarth cymdeithasol is (C2DE), y rheiny o Gymru, y rheiny sy'n gofalu am blant, y rheiny sy'n gofalu am oedolion, y rheiny sy'n byw gyda phlant 0-15 oed, a chynulleidfaoedd sy'n gwyro i'r chwith.

3.4.6 Y farn am bwy sy'n gyfrifol a'r hyn y gellir ei wneud i gefnogi gofalwyr yn well

Roedd rhan olaf yr arolwg, a gynhaliwyd gyda'r sampl lawn (n=3,000), ac a oedd yn cynnwys y grwpiau Rheolydd (*nad* oeddent wedi gweld y naratif) a Thriniaeth, wedi canolbwyntio ar gasglu barn am bwy sy'n gyfrifol am sicrhau bod pawb sy'n gofalu, boed hynny am dâl neu'n ddi-dâl, yn cael y cymorth priodol; a pha mor bwysig yw cefnogi gofalwyr trwy newidiadau polisi penodol.

Ystyrid y mater hwn yn gyfrifoldeb y llywodraeth yn bennaf, yn cael ei dilyn gan gynghorau lleol, gyda chymunedau lleol a chyflogwyr/busnesau yn ymddangos yn llawer pellach i lawr y rhestr.

Yn olaf, roedd yna gytundeb cryf â gwella pob math o gymorth a nodwyd (Ffigur 13).



PQ3 – Darllenwch bob un o'r datganiadau isod yn ofalus. Ystyriwch waith gofal. Yn eich barn chi, pa mor bwysig ydyw?
Sylfaen: Cyfanswm n = 3000.

Ffigur 13: Pwysigrwydd darparu rhagor o gymorth i ofalwyr

Er nad oedd y cyfranogwyr wedi gwahaniaethu rhwng yr amryw fathau o gymorth, mae'n werth nodi bod 'mae gofal cymdeithasol yn ddigonol ac yn hygyrch i'r rheiny y mae arnynt ei angen fwyaf' wedi cyflawni'n gymharol dda ymhlith cynulleidfaoedd sy'n gwyro i'r dde o gymharu â mathau eraill o gymorth; a bod 'gofal plant sydd ar gael yn rhad ac am ddim' wedi cyflawni'n gymharol dda ymhlith cynulleidfaoedd Du ac Ethnig Leiafrifol.

4 CASGLIADAU

Mae'r ymchwil yn dangos bod gan y naratif a luniwyd, yn cynnwys ei holl rannau (Cynsail, Tystiolaeth , a Datganiadau Effaith), y potensial i newid canfyddiadau'r cyhoedd yn sylweddol o ran rhoi gwerth ar ofal a sicrhau bod y mater o well cymorth i ofalwyr yn fwy o flaenoriaeth polisi.

Mae yna gytundeb cryf â'r naratif newydd ledled y grwpiau demograffig gwahanol, yn cynnwys cynulleidfaoedd sy'n gwyro mwy i'r dde yn wleidyddol a chynulleidfaoedd Du ac Ethnig Leiafrifol. Mae hefyd yn glir bod rhannau Cynsail a Thystiolaeth y naratif yn gweithio'n dda o'u cyfuno ag amrywiaeth o faterion gofal gwahanol, sy'n golygu y gellir eu defnyddio fel 'naratif ymbarél' i ail-lunio amrywiaeth eang o faterion gofalu.

Mae gan y naratif newydd y potensial i ysgogi camau gweithredu, yn cynnwys llofnodi deisebau, siarad â ffrindiau a theulu am y mater, a dylanwadu ar benderfyniadau o ran pleidleisio.

Mae'r ymchwil hefyd yn dangos lle y gallai negeseuon mwy penodol fod yn ofynnol ar gyfer rhai grwpiau, yn cynnwys cynulleidfaoedd sy'n gwyro i'r dde a chynulleidfaoedd Du ac Ethnig Leiafrifol, ac, i ryw raddau, y rheiny heb brofiad o ofalu, a dynion.

Mae'r canfyddiadau ledled yr ymchwil yn awgrymu'r canlynol:

- Ei bod yn bwysig siarad am fudd cyfunol pob gofal i gymdeithas, boed hynny am dâl neu'n ddi-dâl – gwyddom y gall gofal a gofalwyr gael eu cymryd yn ganiataol yn rhwydd, felly mae angen i ni esbonio'r modd y mae eu gweithredoedd yn cyfuno i sicrhau cymdeithas well.
- Y gall arwain â'r syniad bod gofalu yn weithgarwch ar y cyd sy'n dal cymdeithas at ei gilydd ac yn gwneud cyfraniad sylweddol i lesiant y cenhedloedd olygu bod canfyddiadau pobl o ofal yn newid.
- Bod darlunio gofalwyr yn rhan o rwydwaith ledled y DU yn helpu pobl i weld gofal yn fwy o 'system' neu 'rwyd ddiogelwch ar gyfer cymdeithas', yn hytrach na dim ond gweithgareddau unigol – mae hyn hefyd yn helpu i gyfleu'r cysyniad o 'seilwaith' mewn modd hygyrch ond grymus.
- Bod siarad am y nifer enfawr o bobl o gefndiroedd amrywiol sy'n gwneud amrywiaeth eang o weithgareddau gofal am dâl a di-dâl yn helpu i sicrhau bod y grŵp gofalwyr yn fwy gweladwy.
- Bod angen atgoffa cynulleidfaoedd am gwmpas gofalu – o ofalu am y bobl ieuengaf (plant) i'r bobl hynaf (90+), a phawb yn y canol.
- Ei bod yn bwysig pwysleisio'r buddion emosiynol a ddarperir gan ofalwyr – cynhesrwydd dynol, annibyniaeth ac urddas – yn ogystal â'r agweddau mwy ymarferol ar ofal.
- Bod amlygu'r canlyniadau negyddol i gymdeithas, gofalwyr a derbynwyr gofal os na fydd gofal yn cael gwell cefnogaeth yn ddefnyddiol o ran ysgogi ymdeimlad o amlygrwydd a brys mewn perthynas â mynd i'r afael â'r arfer o danbrisio gofal.

Mae yna hefyd bethau i'w hosgoi wrth gyfathrebu ynghylch gofal:

- Dylid osgoi dechrau'r naratif â ffocws ar weithgareddau gofalu penodol – yn lle hynny, dechreuwch trwy edrych ar gyfraniad cyfunol gofalu, ac yna siarad am y modd y mae gweithgareddau gofal penodol yn cyfrannu at hyn.

- Efallai na fydd canolbwyntio ar yr heriau a wynebir gan ofalwyr am dâl a gofalwyr di-dâl, heb hefyd amlygu'r cyfraniad cadarnhaol, mor effeithiol o ran newid meddyliau, a hynny am fod pobl yn tueddu i fod yn ymwybodol eisoes o faterion, ond nid o reidrwydd o'r cyfraniad.
- Peidiwch â thybio bod pob ffurf ar ofal yn cael ei hystyried yn yr un modd – er enghraifft, bydd rhai yn ystyried bod gofal plant yn ddyletswydd deuluol yn hytrach nag yn gyfrifoldeb cyfunol.
- Cefnogwch ffeithiau a ffigurau â dadleuon emosiynol sy'n rhoi ystyr i'r ffeithiau.
- Peidiwch â thybio y bydd honiadau ynghylch cyfraniadau gofalwyr i'r economi yn newid canfyddiadau – mae'r cyhoedd yn tueddu i amau honiadau o'r fath.

Y prosiect hwn yw'r cam cyntaf tuag at adrodd stori newydd am *bob* gwaith gofal ledled y DU – bloc adeiladu cyntaf.

Mae angen gwneud rhagor o waith ymchwil i fynd ati'n fwy manwl i archwilio'r modd y gall negeseuon fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau sy'n sbarduno'r arfer o danbrisio gwaith gofal, yn enwedig mewn perthynas â rhywedd a hil. Mae hefyd yn angenrheidiol ymgymryd â rhagor o ymchwil llunio i negeseuon a all siapio barn y cyhoedd am argymhellion penodol ar gyfer newid polisi mewn modd effeithiol. Yn olaf, mae pob ffurf ar ofal yn gofyn am ragor o ymchwil fanwl i daflu goleuni ar y modd y mae'r cyhoedd yn ei chanfod.

NODIADAU

[1] S. Galandini ac I. Ferrer. (2020). *Make Care Count: Unpaid and Underpaid care work across Britain*. Oxfam. DOI: 10.21201/2020.5716. https://policy-practice.oxfam.org/resources/make-care-count-unpaid-and-underpaid-care-work-across-britain-620952/

[2] Mae'n bwysig nodi bod **y datganiad Tystiolaeth wedi cael ei brofi'n feintiol (yn Saesneg) â ffigur o 'tua 15 miliwn'**, sef cyfrifiad cyfansawdd sy'n dwyn ynghyd y niferoedd canlynol: amcangyfrif o '13 miliwn o ofalwyr di-dâl yn gofalu am bobl anabl, sâl neu oedrannus' yn y DU yn 2020, yn Carers UK. (2020). *Carers Week 2020 Research Report*. https://www.carersuk.org/media/gfjf3nz3/cw-2020-research-report-web.pdf; '1.62 miliwn o weithwyr gofal cymdeithasol yn Lloegr', yn Sgiliau Gofal. (2022). *The size of adult social care in England*. https://www.skillsforcare.org.uk/adult-social-care-workforce-data/Workforce-intelligence/publications/national-information/The-state-of-the-adult-social-care-sector-and-workforce-in-England.aspx; a '328,500 o weithwyr gofal plant yn y Blynyddoedd Cynnar yn Lloegr', yn Yr Adran Addysg. (2021). *Survey of Childcare and Early Year Providers: Main Summary*. https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1039675/Main_summary_survey_of_childcare_and_early_years_providers_2021.pdf

Er bod yr ('15 miliwn') hwn yn debygol o fod yn **danamcangyfrif** (gan *nad* yw'n cynnwys rhieni plant heb anghenion ychwanegol, na gweithwyr gofal am dâl yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon), yma, yn fan cychwyn, **rydym yn awgrymu ffigur fymryn yn fwy ceidwadol ('10 miliwn')** sy'n cynnwys dim ond y nifer amcangyfrifedig o ofalwyr di-dâl sy'n cefnogi pobl anabl, sâl ac oedrannus yn 2022, yn Carers UK. (2022). *Carers Week 2022 Research Report*. https://www.carersweek.org/media/qf0p5u4t/carers-week-2022-make-caring-visible-valued-and-supported-report_final.pdf. Mae hyn yn **rhoi ystyriaeth i'r risg bosibl o 'gyfrif gofalwr ddwywaith'** yn yr ystadegau, a hynny am fod rhai unigolion yn jyglo cyfrifoldebau gofalu am dâl a di-dâl gwahanol (e.e. gall rhieni hefyd fod yn ofalwyr di-dâl i bobl ag anghenion ychwanegol; a gall gweithwyr gofal cyflogedig fod â cyfrifoldebau gofal di-dâl).

[3] Carers UK. (2019). *Juggling work and unpaid care: A growing issue*. https://www.carersuk.org/media/no2lwyxl/juggling-work-and-unpaid-care-report-final-web.pdf

[4] S. Galandini ac I. Ferrer. (2020). *Make Care Count: Unpaid and Underpaid care work across Britain*. *Op. cit.*

[5] *Ibid.*

[6] A. Parvez Butt, C. Coffey, P. Espinoza Revollo, R. Harvey, M. Lawson, K. Piaget, D. Sarosi a J. Thekkudan. (2020). *Time to Care: Unpaid and Underpaid Care Work and the Global Inequality Crisis*. Oxfam. https://www.oxfam.org/en/research/time-care

[7] N. Abdo, M. Bolis, E. Holten, M. Jose Moreno, L. Mugehera ac A. Parvez Butt. (2020). *Care in the Time of Coronavirus: Why care work needs to be at the centre of a post-COVID-19 feminist future*. Oxfam. DOI: 10.21201/2020.6232. https://policy-practice.oxfam.org/resources/care-in-the-time-of-coronavirus-why-care-work-needs-to-be-at-the-centre-of-a-po-621009/

[8] Carers UK. (2022). *State of Caring Report 2022*. https://www.carersuk.org/reports/state-of-caring-2022-report/; Gingerbread. (2023). *The single parent employment challenge.* https://www.gingerbread.org.uk/policy-campaigns/publications-index/the-single-parent-employment-challenge-report/

[9] Ymddiriedolaeth y Gofalwyr. (2022). *I feel like I've disappeared*. https://carers.org/our-social-care-campaign/i-feel-like-ive-disappeared; Y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant. (2023). *Pre-Spring Budget MP Briefing, March 2023*. https://cpag.org.uk/sites/default/files/files/policypost/Pre-Spring_Budget_MP_Briefing_March_2023.pdf

[10] Y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant. (2022). *The Cost of A Child in 2022*. https://cpag.org.uk/policy-and-campaigns/report/cost-child-2022

[11] Carers UK. (2022). *Heading for the Crisis: Caught between caring and rising costs.* https://www.carersuk.org/media/q33ba3ae/heading-for-crisis_1-3.pdf

[12] Sefydliad Joseph Rowntree. (2023). *UK Poverty 2023*. https://www.jrf.org.uk/report/uk-poverty-2023

[13] Carers UK. (2019). *State of caring: A snapshot of unpaid care in the UK.* http://www.carersuk.org/images/News__campaigns/CUK_State_of_Caring_2019_Report.pdf

[14] Carers UK. (2022). *The State of Caring Report 2022. Op. cit.*

[15] Ymddiriedolaeth y Gofalwyr. (2022). *Pushed to the edge: Life for Unpaid Carers in the UK.* https://carers.org/downloads/resources-pdfs/pushed-to-the-edge.pdf

[16] Sefydliad Joseph Rowntree. (2023). *Overall UK poverty rates.* https://www.jrf.org.uk/data/overall-uk-poverty-rates

[17] Sefydliad Joseph Rowntree (2023). *UK Poverty 2023. Op. cit.*

[18] Working Families. (2022). *Working Families Index 2022.* https://workingfamilies.org.uk/publications/working-families-index/

[19] Gingerbread. (2023). *Single Parents in 2023.* https://www.gingerbread.org.uk/wp-content/uploads/2023/03/Single-Parents-in-2023-Single-Parents-Day-report.pdf

[20] Living Wage Foundation. (2021). *Employee jobs paid below the Living Wage: 2021.* https://www.livingwage.org.uk/sites/default/files/LivingWage_Employees_Below_The_LivingWage_2021.pdf

[21]Comisiwn Symudedd Cymdeithasol. (2020). *Stability of the early years workforce in England report.* https://www.gov.uk/government/news/stability-of-the-early-years-workforce-in-england-report

[22]Sgiliau Gofal. (2022). *Pay rates*. https://www.skillsforcare.org.uk/adult-social-care-workforce-data-old/Workforce-intelligence/publications/Topics/Pay-rates.aspx

[23] Y Sefydliad Iechyd. (11 Hydref 2022). *The cost of caring: poverty and deprivation among residential care workers in the UK.* https://www.health.org.uk/publications/long-reads/the-cost-of-caring

[24] K. Hardy, *et al*. (2022). *Essential but undervalued: early years care & education during COVID-19*. https://childcare-during-covid.org/wp-content/uploads/2022/02/CDC-19-Final-report.pdf

[25] GMB. (23 Ebrill 2021). *Three quarters of care workers' mental health has worsened during pandemic.* https://www.gmb.org.uk/printpdf/2707

[26] Women's Budget Group ac Ymddiriedolaeth Runnymede. (2017). *Intersecting Inequalities.* https://wbg.org.uk/analysis/intersecting-inequalities/

[27] Centre for Progressive Policy. (30 Mawrth 2022). *What Women Want: Tackling gender inequalities in unpaid care and the workplace*. https://www.progressive-policy.net/publications/what-women-want

[28] Women's Budget Group ac Ymddiriedolaeth Runnymede. (2017). *Intersecting Inequalities: the impact of austerity on Black and Minority Ethnic women in the UK*. https://wbg.org.uk/wp-content/uploads/2018/08/Intersecting-Inequalities-October-2017-Full-Report.pdf

[29] Sgiliau Gofal. (2022). *The State of the adult social care sector and workforce in England 2022.* https://www.skillsforcare.org.uk/Adult-Social-Care-Workforce-Data/Workforce-intelligence/documents/State-of-the-adult-social-care-sector/The-state-of-the-adult-social-care-sector-and-workforce-2022.pdf; Llywodraeth yr Alban. (2022). *National Care Service – adult social care workforce: evidence*. https://www.gov.scot/publications/national-care-service-adult-social-care-workforce-scotland/documents/; Llywodraeth Cymru. (2021). *Adroddiad y gweithlu gofal cymdeithasol 2021.* https://gofalcymdeithasol.cymru/cms-assets/documents/Workforce_Report_2021_CY-final.pdf

[30] Women's Budget Group. (16 Medi 2021). *An invisible and vulnerable sector: early years childcare and Covid*. https://wbg.org.uk/blog/an-invisible-and-vulnerable-sector-early-years-childcare-and-covid/; Llywodraeth yr Alban. (2016). *A Blueprint for 2020: Expansion of Early Learning and Childcare in Scotland Consultation.* https://www.gov.scot/publications/blueprint-2020-expansion-early-learning-childcare-scotland-consultation/pages/5/; Llywodraeth Cymru. (2017). *Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar: Cynllun Gweithlu*. https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-12/cynllun-gweithlu-r-blynyddoedd-cynnar.pdf

[31] L. Karimli, E. Samman, L. Rost a T. Kidder. (2016). *Factors and norms influencing unpaid care work: Household survey evidence from five rural communities in Colombia, Ethiopia, the Philippines, Uganda and Zimbabwe (executive summary)*. https://oxfamilibrary.openrepository.com/bitstream/handle/10546/620145/er-household-care-survey-wecare-151116-summ-en.pdf?sequence=2

[32] Women's Budget Group. (2020). *Creating a Caring Economy: A Call to Action*. https://wbg.org.uk/wp-content/uploads/2020/10/WBG-Report-v10.pdf

[33] D. Elson. (2017). *Recognize, Reduce, Redistribute Unpaid Care Work: How to Close the Gender Gap*. https://newlaborforum.cuny.edu/2017/03/03/recognize-reduce-redistribute-unpaid-care-work-how-to-close-the-gender-gap/

[34] N. Singh, A. Parvez Butt ac C. Canepa. (2018). *Shifting Social Norms in the Economy for Women's Economic Empowerment: Insights from a practitioner learning group*. https://seepnetwork.org/files/galleries/Shifting-Social-Norms-FINAL.pdf

[35] Sefydliad FrameWorks. (2021). *The Features of Narratives: A Model of Narrative Form for Social Change Efforts*. https://www.frameworksinstitute.org/wp-content/uploads/2021/09/The-features-of-narratives.pdf; R. Taylor. (2021). *Transforming Narrative Waters: Growing the practice of deep narrative change in the UK.* https://narrativeinitiative.org/wp-content/uploads/2022/03/transforming-narrative-waters.pdf

[36] Sefydliad FrameWorks. (3 Mehefin 2018). *Framing and Policy Making: How does framing help advance our public policy goals?* https://www.frameworksinstitute.org/article/framing-and-policy-making/; R. English. (2020). *Influencing for Impact Guide: How to deliver effective influencing strategies.* DOI: 10.21201/2020.5891. https://policy-practice.oxfam.org/resources/influencing-for-impact-guide-how-to-deliver-effective-influencing-strategies-621048/

[37] D. Chandler. (2007). *Semiotics: The Basics*; R. Barthes. (1957). *Mythologies*; The Answer. (n.d.). *What is Semiotics?* https://www.theanswerinsight.com/what-is-semiotics

[38] L. Buckner ac S. Yeandle. (2015). *Valuing Carers 2015: The rising value of carers' support.* Carers UK. https://socialcare.wales/cms-assets/documents/hub-downloads/Valuing_Carers_2015.pdf

[39] J. De Henau ac S. Himmelweit. (2020). *A Care-Led Recovery from Coronavirus: The case for investment in care as a better post-pandemic economic stimulus than investment in construction*. Women's Budget Group. https://wbg.org.uk/wp-content/uploads/2020/06/Care-led-recovery-final.pdf

[40] S. Galandini ac I. Ferrer. (2020). *Make Care Count: Unpaid and Underpaid care work across Britain*. *Op. cit.*

[41] Women's Budget Group. (2020). *Creating a Caring Economy: A Call to Action.* https://wbg.org.uk/analysis/creating-a-caring-economy-a-call-to-action-2/

[42] TUC. (2022). *Lifting the veil: removing the invisibility of adult social care*. Ymateb y TUC i Ymchwiliad Pwyllgor Gofal Cymdeithasol i Oedolion Tŷ'r Arglwyddi. https://www.tuc.org.uk/research-analysis/reports/lifting-veil-removing-invisibility-adult-social-care

[43] Ymgyrch We Care. *The ones who care*. https://vimeo.com/715878993

[44] A. Jitendra. (16 Rhagfyr 2022). *Valuing and redesigning care will help solve poverty – and benefit all of us*Blog Sefydliad Joseph Rowntree. https://www.jrf.org.uk/blog/valuing-and-redesigning-care-will-help-solve-poverty-and-benefit-all-us

[45] Mae'n bwysig nodi bod y **datganiad Tystiolaeth wedi cael ei brofi'n feintiol â ffigur o 'tua 15 miliwn'**, sef cyfrifiad cyfansawdd sy'n dwyn ynghyd y niferoedd canlynol: amcangyfrif o '13 miliwn o ofalwyr di-dâl yn gofalu am bobl anabl, sâl neu oedrannus' yn y DU yn 2020, yn Carers UK (2020) *Carers Week 2020 Research Report*. https://www.carersuk.org/media/gfjf3nz3/cw-2020-research-report-web.pdf; '1.62 miliwn o weithwyr gofal cymdeithasol yn Lloegr', yn Sgiliau Gofal (2022) *The size of adult social care in England.* https://www.skillsforcare.org.uk/adult-social-care-workforce-data/Workforce-intelligence/publications/national-information/The-state-of-the-adult-social-care-sector-and-workforce-in-England.aspx; a '328,500 o weithwyr gofal plant yn y Blynyddoedd Cynnar yn Lloegr', yn Yr Adran Addysg (2021) *Survey of Childcare and Early Year Providers: Main Summary*. https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1039675/Main_summary_survey_of_childcare_and_early_years_providers_2021.pdf

Er bod yr ('15 miliwn') hwn yn debygol o fod yn **danamcangyfrif** (gan *nad* yw'n cynnwys rhieni plant heb anghenion ychwanegol, na gweithwyr gofal am dâl yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon), yma, yn fan cychwyn, **rydym yn awgrymu ffigur fymryn yn fwy ceidwadol ('10 miliwn')** sy'n cynnwys dim ond y nifer amcangyfrifedig o ofalwyr di-dâl sy'n cefnogi pobl anabl, sâl ac oedrannus yn 2022, yn Carers UK (2022) *Carers Week 2022 Research Report*. https://www.carersweek.org/media/qf0p5u4t/carers-week-2022-make-caring-visible-valued-and-supported-report_final.pdf. Mae hyn yn **rhoi ystyriaeth i'r risg bosibl o 'gyfrif gofalwr ddwywaith'** yn yr ystadegau, a hynny am fod rhai unigolion yn jyglo cyfrifoldebau gofalu am dâl a di-dâl gwahanol (e.e. gall rhieni hefyd fod yn ofalwyr di-dâl i bobl ag anghenion ychwanegol; a gall gweithwyr gofal cyflogedig fod â cyfrifoldebau gofal di-dâl).

[46] Carers UK. (2019). *Juggling work and unpaid care: A growing issue*. *Op. cit.*

[47] Mae gwahaniaethau sylweddol rhwng pob un o'r tri grŵp Triniaeth (h.y. grwpiau a oedd wedi gweld y Cynsail + y Dystiolaeth + unrhyw un o'r tri Datganiad Effaith) a'r grŵp Rheolydd (h.y. yr ymatebwyr nad oeddent wedi gweld unrhyw elfen o'r naratif) yn golygu bod yna dystiolaeth i'r naratifau ddylanwadu ar ganlyniad penodol (yn yr achos hwn, amlygrwydd polisi gofal).

[48]Roedd y grŵp Du ac Ethnig Leiafrifol yn cynnwys ymatebwyr o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Cymysg.

[49]Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru. (2022). *Experiences of Unpaid Carers from Black and Minority Ethnic Communities Report*. https://carers.org/downloads/carers-trust-report-final.pdf

[50] Mesurwyd y cytundeb cyffredinol â'r holl ddatganiadau naratif (y datganiadau Cynsail, Tystiolaeth ac Effaith) trwy gyfrwng graddfa Likert pum pwynt: cyfrifir 'cytuno'n gryf' a 'cytuno ychydig' fel 'cytundeb'.

[51] Mesurwyd y graddau y llwyddodd pob datganiad (y datganiadau Cynsail, Tystiolaeth ac Effaith) i newid agweddau pobl at ofal trwy hunangofnod o newidiadau i safbwyntiau. Defnyddiwyd graddfa Likert saith pwynt i nodi maint y newid (7=eithriadol, 1=ddim o gwbl): nodir pwyntiau 7–5 yn 'gytundeb'.

CYDNABYDDIAETHAU

Gwnaed yr ymchwil a gyflwynir yn yr adroddiad hwn rhwng misoedd Mehefin 2022 ac Ionawr 2023, a hynny gan Oxfam GB a The Answer.

Awduron yr adroddiad hwn yw Nick Gadsby (The Answer), Silvia Galandini ac Anam Parvez Butt (Oxfam GB).

Roedd y prosiect yn cynnwys Grŵp Llywio Ymgynghorol, a oedd yn cynnwys yr aelodau canlynol: Carers Trust, Carers UK, Joseph Rowntree Foundation, the Trades Union Congress, Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod (WEN) Cymru, a'r the Women's Budget Group. Rydym yn eithriadol o ddiolchgar i'r holl aelodau am neilltuo eu hamser yn garedig iawn i ddarparu arbenigedd a mewnwelediadau amhrisiadwy.

Diolch arbennig i Alice Fenyoe yn Curiouser a Karen Wise am gynnal yr ymchwil cynulleidfa ansoddol a meintiol sy'n llywio'r adroddiad hwn.

Rydym hefyd yn ddiolchgar iawn i'r cyd-weithwyr canlynol am eu cyngor, eu harweiniad a'u cymorth, a fu'n hanfodol i ddatblygiad yr ymchwil a'r adroddiad hwn: Sarah Rees, Kelly Mundy, Alex Bush, Katy Chakrabortty, Jamie Livingstone, Lewis Ryder-Jones, Claire Spoors, Clare Coffey, Leena Patel, Sam Dick, Louisa Lyne, Lisa Rutherford, Holly Rothwell, Charlotte Brind, Helen Bunting ac Ally Davies.

Yn olaf, rydym yn ddiolchgar i Bec Sanderson a Polly Trenow, ymgynghorwyr arbenigol a gefnogodd y gwaith o ddatblygu nodyn cysyniadol y prosiect cychwynnol.

Darluniau gan Alex Bush.

OXFAM

Adroddiadau ymchwil

Lluniwyd yr adroddiad ymchwil hwn i rannu canlyniadau ymchwil, i gyfrannu at y ddadl gyhoeddus, ac i wahodd adborth ar ddatblygiad a pholisi ac ymarfer dyngarol. Nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu sefyllfaoedd polisi y sefydliadau sy'n ei gyhoeddi. Mae'r safbwyntiau a fynegir yn eiddo i'r awdur ac nid o reidrwydd i'r cyhoeddwyr.

I gael rhagor o wybodaeth, neu i roi sylw ar yr adroddiad hwn, anfonwch neges e-bost at Silvia Galandini: sgalandini1@oxfam.org.uk

© Oxfam International Mai 2023

Mae hawlfraint ar y cyhoeddiad hwn, ond gellir defnyddio'r testun yn rhad ac am ddim at ddibenion eirioli, ymgyrchu, addysg, ac ymchwil, cyhyd ag y cydnabyddir y ffynhonnell yn llawn. Gofynna deiliad yr hawlfraint am i bob defnydd o'r fath gael ei gofrestru gydag ef at ddibenion asesiad o'r effaith. I'w gopïo dan unrhyw amgylchiadau eraill, neu i'w ailddefnyddio mewn cyhoeddiadau eraill, neu i'w gyfieithu neu ei addasu, rhaid sicrhau caniatâd, a gall tâl gael ei godi. E-bost: policyandpractice@oxfam.org.uk

Mae'r wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn yn gywir adeg mynd i'r wasg.

Cyhoeddwyd gan Oxfam GB ar gyfer Oxfam International ym mis Mai 2023.
DOI: 10.21201/2023.621498
Oxfam GB, Oxfam House, John Smith Drive, Cowley, Rhydychen OX4 2JY.

OXFAM

Mae Oxfam yn gonffederasiwn rhyngwladol o 21 o sefydliadau sy'n gweithio gyda'i bartneriaid a'i gynghreiriaid, gan estyn allan i filiynau o bobl o amgylch y byd. Gyda'n gilydd, rydym yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau i roi diwedd ar dlodi ac anghyfiawnder, 'nawr ac yn y tymor hwy – i sicrhau dyfodol cyfartal. Mae croeso i chi ysgrifennu at unrhyw un o'r asiantaethau i gael rhagor o wybodaeth, neu ewch i www.oxfam.org.